# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Mehefin 2018

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Steve George**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 14

(09:15 - 10:15) (Tudalennau 1 - 17)

Ron Jones, Sylfaenydd a Chadeirydd Gweithredol Tinopolis, Cadeirydd Panel Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru ac aelod o'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau.

**Egwyl (10:15 - 10:30)**

## 3 Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth 15

(10:30 - 11:30) (Tudalennau 18 - 31)

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Dafydd Elis-Thomas AC, Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon

Mick McGuire, Cyfarwyddwr Busnes a'r Rhanbarthau

Joedi Langley, Pennaeth y Sector Creadigol

## 4 Papurau i'w nodi

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

4.1 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood

(Tudalennau 32 - 79)

4.2 Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru: Tystiolaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

(Tudalennau 80 - 83)

4.3 Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru: Tystiolaeth ychwanegol gan Gyngor Celfyddydau Cymru

(Tudalennau 84 - 86)

4.4 Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru: Tystiolaeth ychwanegol gan Euros Lyn

(Tudalennau 87 - 89)

4.5 Cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru: Tystiolaeth ychwanegol

(Tudalennau 90 - 92)

4.6 Gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg

(Tudalennau 93 - 95)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

## 6 Trafod y dystiolaeth

(11:30 - 12:00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHYFATHREBU**

**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – YMCHWILIAD I GYNYRCHIADAU FFILM A THELEDU MAWR YNG NGHYMRU**

Pwrpas y papur hwn yw darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar gyfer eu hymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r hyn a wnaed hyd yn hyn i sefydlu Cymru fel canolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu.

1. **Nodau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru; pam a sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y maes hwn**

**Dull hanesyddol**

Yn 2010 cydnabuwyd y diwydiannau creadigol fel sector blaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru. Roedd y strategaeth a'r dull o ddarparu cymorth i'r sector yn canolbwyntio ar ddarparu cyllid drwy grantiau, benthyciadau a buddsoddiadau masnachol, a'r blaenoriaethau strategol oedd:

- cyflawni cytundeb cydweithio Pinewood, yn cynnwys y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau;
- dod â chynyrchiadau ffilm a theledu o safon uchel i Gymry drwy anogaethau ariannol Llywodraeth Cymru;
- ariannu prosiectau cyfryngau digidol gwerth uchel.

Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u cyflawni gyda chymorth o ran logisteg ar gyfer cynyrchiadau drwy wasanaeth Sgrîn Cymru, a chymorth i ddatblygu ystod o gyfleusterau stiwdio ar hyd coridor yr M4 rhwng Cas-gwent ac Abertawe.

Yn 2012 cynhaliodd swyddogion tîm y Sector Diwydiannau Creadigol ymarfer i flaenoriaethau cymorth ar draws gwahanol is-sectorau'r diwydiannau creadigol; o ganlyniad, cynghorodd Panel y Sector y dylai'r llywodraeth ganolbwyntio cymorth ar yr is-sectorau a oedd yn debygol o gael yr effaith economaidd fwyaf ar Gymru ac a fyddai'n darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer twf y diwydiant yng Nghymru. Nodwyd y rhain ar y pryd fel rhai sgrin (yn enwedig teledu o'r safon uchaf) a chyfryngau digidol. Mae'r sector diwydiannau creadigol yn llawer ehangach na ffilm/teledu a digidol, ond dyma'r meysydd a oedd yn cynnwys cyfleoedd i fanteisio arnynt a'r potensial ar gyfer y twf mwyaf ar y pryd.

Erbyn 2013 roedd nifer y cynyrchiadau a oedd yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru (gan gynhyrchwyr o Gymru a buddsoddwyr mewnol) wedi cyrraedd pwynt allweddol. Arweiniodd y profiad gyda phrosiectau fel *Hinterland/Y Gwyll, Atlantis* a *Da Vinci's Demons* at gyflwyno mecanweithiau pwrpasol y gellid eu gweithredu ar gyfer cronfa gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru i ddenu buddsoddiadau allweddol i Gymru, ac i alluogi busnesau cynhenid yn y maes hwn i ehangu eu gallu cynhyrchu.

Y prif amcan oedd ei gwneud hi'n haws i ddenu buddsoddiad preifat ychwanegol i Gymru, gan sicrhau manteision economaidd uniongyrchol drwy wariant cynhyrchu a chefnogi busnesau Cymru i ddatblygu a defnyddio eu heiddo deallusol mewn marchnadoedd rhyngwladol.

Roedd nifer y cynyrchiadau a gynhyrchwyd yng Nghymru y pryd hwnnw yn sylweddol is na'r hyn ydyw ar hyn o bryd, a oedd yn golygu bod llawer o weithwyr llawrydd Cymru yn teithio y tu allan i Gymru i gael gwaith. Yn ogystal, roedd llawer o gwmnïau cynhenid y

sector ar y pryd yn dibynnu ar gomisiynau gan S4C. Roedd y cyllid cynhyrchu hwn yn allweddol i ddatgloi potensial rhai o'r cwmnïau a darparu cyfleoedd i'r gymuned gweithwyr llawrydd.

Ystyriwyd bod pwysigrwydd seilwaith stiwdios yn hanfodol i ddatblygu'r diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru. Roedd Dragon Studios yn uchelgeisiol ac yn rhy gynnar yn nhwf y sector i fod yn llwyddiant. Fodd bynnag, daeth datblygu seilwaith stiwdios ar hyd coridor yr M4 yn rhan allweddol o'n strategaeth. Dechreuodd hyn gyda Bay Studios, a oedd yn gartref i dri thymor o *Da Vinci's Demons*, ac mae wedi parhau drwy ddatblygu Stiwdio Pinewood Cymru a Stiwdio Blaidd Cymru.

Dengys ffigurau o 2016 fod y sector yn gyffredinol yn ffynnu:

- Roedd 48,600 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector diwydiannau creadigol yng Nghymru yn 2016, cynnydd o 52.4% ers 2006.
- Roedd 5,705 o fentrau'n weithredol yn y sector diwydiannau creadigol yng Nghymru yn 2016, cynnydd o 43.3% ers 2006 a chynnydd o 5% ers 2015.
- Roedd cyfanswm trosiant cwmnïau diwydiannau creadigol Cymru yn 2016 yn £1.73 biliwn. Cafwyd cynnydd o 12.5% mewn trosiant o'r sector rhwng 2006 a 2016.

Roedd cytundeb Pinewood yn cynnwys tair elfen allweddol wedi'u cynllunio i ddatblygu'n strategaeth ffilm a theledu:

- datblygu'r seilwaith stiwdios ymhellach ar hyd coridor cynhyrchu'r M4 drwy sefydlu cyfleuster stiwdio proffesiynol yng Ngwynllŵg wedi'i redeg gan frand a gydnabyddir yn rhyngwladol;
- pennu Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, cronfa hirhoedlog i fuddsoddi mewn ffilm a theledu a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i elwa ar dwf masnachol ochr yn ochr â'r manteision economaidd;
- cytundeb nawdd i hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol ar draws rhwydwaith fyd-eang Pinewood.

Mae cael brand mor enwog yng Nghymru wedi bod yn amhrisiadwy i sector ffilm a theledu Cymru. Mae Pinewood wedi helpu i godi statws Cymru fel lleoliad cynhyrchu o bwys ac wedi rhoi mantais fyd-eang i Gymru dros ranbarthau eraill.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cwblhau adolygiad ar sail ffeithiau i berthynas Llywodraeth Cymru a Pinewood. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 12 Mehefin 2018.

Nod y buddsoddiad yn Stiwdio Blaidd Cymru oedd hyrwyddo'r twf hwn drwy ddatblygu hyb cynhyrchu drama teledu cynaliadwy yng Nghymru, dan arweiniad swyddogion rhyngwladol llwyddiannus a phrofiadol a sicrhau manteision economaidd hirdymor sylweddol i Gymru. Sicrhaodd cyfresi drama teledu o'r safon uchaf am 10 mlynedd i Gymru, gan sicrhau cynaliadwyedd y criw a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru.

Mae'r dull hwn wedi llwyddo, gyda Chymru'n cystadlu go iawn ym maes dramâu teledu o'r safon uchaf erbyn hyn; mae'r ymholiadau a nifer y cynyrchiadau sy'n ffilmio yma wedi codi'n sylweddol. Arweiniodd hyn at gynnydd sylweddol yn yr arian mae'r cynyrchiadau hyn yn ei wario yng Nghymru ac ar gadwyn gyflenwi Cymru, ac yn economi ehangach Cymru. Y llynedd, (2017-18), dyblodd gwariant cynyrchiadau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru.

**Cymorth yn y dyfodol – Cymru Greadigol**

Rydym yn ariannu cynyrchiadau ffilm a theledu i sicrhau manteision i economi'r rhanbarth drwy wariant lleol gan gynyrchiadau sy'n ffilmio yn yr ardal. Mae gwariant lleol yn digwydd yn syth ac ymlaen llaw, a gall gael effaith economaidd sylweddol. Wrth symud ymlaen mae angen i ni ystyried beth sydd wedi gweithio yn y gorffennol yng ngoleuni cyd-destun tirwedd newidiol y diwydiant. Mae angen symudiad strategol i symud o'r cyllid cyfredol i ffilm a theledu traddodiadol, a symud tuag at gyllid ar gyfer 'sgrin' (a allai gynnwys cynnwys a phlatfformau fideo-ar-alw, gemau ac animeiddio).

Ers 2005, mae twf y diwydiant wedi newid y dirwedd yn sylweddol a chydnabyddir, er bod y cymorth sydd ar gael yn parhau i fod yn effeithiol, bod angen blaenoriaethu gweithgareddau eraill i gynnal a chyflymu twf y sector, sef:

- datblygu sgiliau a'r gadwyn gyflenwi;
- gwella rhwydweithiau a mynediad at gyngor arbenigol dan arweiniad y sector;
- defnyddio cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau digidol yn well i ddarparu gwasanaethau;
- cymorth pwrpasol ar gyfer cael gafael ar gyfalaf (preifat a chyhoeddus);
- gwella gallu busnesau creadigol i greu, cadw a defnyddio eu heiddo deallusol yn economi Cymru.

Dyna'r rheswm dros ein hymrwymiad i ddiwygio ac ail-lansio'n cymorth i'r sector creadigol; fel swyddogaeth ar wahân o'r enw *Cymru Greadigol*. Rydym yn cydnabod yr angen am ddull mwy cynhwysfawr a'r gofyniad am gymorth pwrpasol i helpu twf busnesau. Mae angen i'r llywodraeth ymateb yn fwy hyblyg i sector sy'n symud yn gyflym ac annisgwyl ar brydiau. Cymru Greadigol fydd ein cyfrwng ar gyfer gwneud hyn, a bydd yn cynnig gwasanaeth symlach, deinamig ac arloesol i'r sector hwn.

Mae angen i gymorth Cymru Greadigol ganolbwyntio ar y cyfleoedd sydd i'w cael gyda phlatfformau digidol, ac ar y cwmnïau sydd yn y sefyllfa orau i ymateb i'r cyfleoedd hynny. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r cydgyfeirio a'r synergedd cynyddol ar draws yr is-sectorau.

Bydd cynnal piblinell o gynyrchiadau, datblygu a chryfhau'r gadwyn gyflenwi ffilm a theledu a pharhau i osod Cymru fel prif leoliad ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu yn parhau'n flaenoriaeth i gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiannau creadigol.

Mae'n rhaid i gyllid y dyfodol allu addasu i gefnogi cynhyrchu cynnwys creadigol gweledol ar unrhyw blatfform (cyfredol, newydd neu heb eu dyfeisio eto). Mae angen i'r model cyllid fod yn hyblyg, eang a dylai allu newid yn gyflym. Dylai allu cynnal technolegau sy'n datblygu, platfformau newydd, mathau newydd o gynnwys creadigol a ffyrdd newydd o bennu eu gwerth ariannol.

Yn 2018, mae'r sector diwydiannau creadigol yng Nghymru ar bwynt hanfodol lle mae cyfleoedd yn cydgyfeirio. Gyda'r gefnogaeth briodol dros y blynyddoedd nesaf gallai'r twf a'r llwyddiant fod yn sylweddol.

**2. Y cymorth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r diwydiannau ffilm a theledu yng Nghymru yn cynnwys:**

**a. Effaith economaidd, a sut mae hyn yn cael ei wasgaru ledled Cymru**

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod cynyrchiadau ffilm a theledu a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi gwario dros £178 miliwn yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf, gan fod o fudd i gadwyni cyflenwi a chefnogi cannoedd o fusnesau yma. Y

llynedd (2017-18) gwariwyd £64 miliwn ar nwyddau a gwasanaethau Cymru gan gynyrchiadau a oedd yn ffilmio yma gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru - dwbl ffigur y flwyddyn flaenorol.

Nid yw hyn yn cynnwys gwariant gan gynyrchiadau a gefnogwyd gan Wasanaeth Sgrin Cymru drwy gymorth logisteg ar gyfer criw, lleoliadau, cyfleusterau a gwasanaethau; mae'r ffigur hwn dros £75 miliwn dros y pum mlynedd diwethaf.

**Y Gogledd**

Mae'r cynyrchiadau a ffilmiwyd yn y rhanbarth yn cynnwys:

*Requiem*, cyfres ddrama chwe rhan o'r safon uchaf ar gyfer BBC1, a ffilmiwyd mewn lleoliadau ledled Cymru, yn cynnwys Dolgellau.
*King Arthur: Legend of the Sword* - roedd y ffilm hon yn dangos rhai o dirweddau epig Cymru a ysbrydolodd gynulleidfaoedd rhyngwladol i ddysgu mwy am chwedlau cyfoethog Cymru a'i chysylltiadau â'r Brenin Arthur. Roedd lleoliadau'r ffilm yn cynnwys Llyn Gwynant a Chapel Curig.
*Take Down* wedi'i ffilmio'n rhannol ar Ynys Môn, derbyniodd fuddsoddiad masnachol o Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau Llywodraeth Cymru.
Drama *Rocket's Island* CBBC gan Lime Pictures a ffilmiwyd yn Nhraeth Penrhyn (cyfres ddrama 13x30m ar gyfer plant 7-14 oed).
Bu'r ail gyfres o'r ddrama *Safe House* ar ITV hefyd yn ffilmio golygfeydd allweddol ym Mae Trearddur, Amlwch, Porth Trecastell ac ym mhentref Aberffraw.

Derbyniodd *Hidden/Craith* a ffilmiwyd yn Eryri gefnogaeth gan BBC Wales, S4C ac all3media international. Darlledwyd y ddrama wyth bennod ar S4C i ddechrau yn gynnar yn 2018 dan y teitl *Craith.* Mae fersiwn ddwyieithog o'r enw *Hidden* yn cael ei darlledu ar BBC One Wales a BBC 4 ar hyn o bryd.

Mae swyddfa Sgrin Cymru yn y gogledd, yng Nghaernarfon, yn cefnogi economi'r rhanbarth o ran cynhyrchu ffilm a theledu. Mae'n cadw cronfa ddata helaeth o griw a chyfleusterau technegol lleol, gwasanaethau lleol a lleoliadau ac yn ymwneud yn agos ag awdurdodau lleol, Heddlu'r Gogledd a chyrff cenedlaethol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, CADW a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r gronfa ddata o gysylltiadau'n ehangu'n barhaus fel y gall Sgrin Cymru gynnig yr amrywiaeth fwyaf o gyfleusterau a chriw lleol â phosibl, gan sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cael ei wario yn economi'r Gogledd.

Mae cwmnïau ffilm a theledu arwyddocaol yn y rhanbarth yn cynnwys:

Rondo Media – un o gwmnïau cynhyrchu annibynnol mwyaf Cymru gyda swyddfeydd yng Nghaernarfon, Porthaethwy a Chaerdydd.
Cwmni Da - mae wedi datblygu enw da fel un o gwmnïau annibynnol mwyaf ac uchaf ei barch yng Nghymru. Mae bellach yn cyflogi 73 o staff, i gyd yn Noc Fictoria, Caernarfon,
Chwarel Cyf yng Nghricieth. Yr unig gwmni cynhyrchu teledu wedi'i leoli ym Mhen Llŷn sy'n cynnig cyfleusterau stiwdio i gleientiaid allanol, boed yn gynhyrchwyr ffilmiau neu'n ffotograffwyr. Mae'r gofod stiwdio'n eu galluogi i wneud cynigion am gyfresi teledu sy'n cynnwys elfen stiwdio gan greu swyddi pellach.

Mae pob cwmni wedi derbyn cefnogaeth (ariannol ac anariannol) gan Lywodraeth Cymru.

**Y De-orllewin**

Rydym yn parhau i gefnogi a thyfu'r diwydiant ffilm a theledu yn y de-orllewin ac mae Sgrin Cymru, rhan o Sector Creadigol Llywodraeth Cymru, yn hyrwyddo lleoliadau Cymru a darparwyr cyfleusterau lleol yn gyson.

Mae Stiwdio Bae Abertawe wedi bod yn gartref i dri thymor o *Da Vinci's Demons* gan gynhyrchu £28.5 miliwn o wariant Cymreig i'r economi leol yn unig. Ffilmiwyd y cynhyrchiad mewn nifer o leoliadau yn y de-orllewin, Parc a Chastell Margam yn bennaf. Mae'r cyfleuster hefyd wedi bod yn gartref i *The Collection*, cyfres ddrama deledu o'r radd flaenaf 8 pennod 60 munud o hyd a ysgrifennwyd ar gyfer Amazon Prime Video ac a ariannwyd gan Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Wedi'i gosod ym Mharis ym 1947 ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd, ffilmiwyd y gyfres ar leoliad ym Mharis, yn Stiwdios Bae Abertawe ac mewn nifer o leoliadau yn y de-orllewin. Gwariodd y cynhyrchiad £5.2 miliwn yn yr economi leol.

Cafodd *Apostle*, ffilm fawr gyda'r actor o Gymro Michael Sheen yn y brif rôl, a seren *Beauty and the Beast* Dan Stevens, ei ffilmio yn y de-orllewin. Cydweithiodd y cynhyrchwyr o UDA, XYZ Films â chwmni cynhyrchu o Gaerdydd, Severn Screen i gynhyrchu'r ffilm ddiweddaraf gan y cyfarwyddwr uchel ei barch o Gymru, Gareth Evans, yr oedd ei ffilmiau blaenorol *The Raid* a *The Raid II* yn llwyddiannau byd-eang. Cafodd *Apostle* ei chomisiynu gan Netflix a bydd yn ymddangos ar y gwasanaeth ffrydio hwnnw yn unig ledled y byd ym Medi 2018. Mae cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru wedi sicrhau bod yr holl waith ffilmio ac ôl-gynhyrchu ar *Apostle* wedi'i wneud yng Nghymru, gan ddarparu dros £5 miliwn o hwb i'r economi. Ffilmiwyd y ffilm yn Stiwdios Bae Abertawe ar Ffordd Fabian ac ar leoliad ym Mharc a Chastell Margam.

Cafodd y ddrama drosedd *Bang,* a ffilmiwyd ym Mhort Talbot ac a ariannwyd gan y Gronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau, ei henwebu am Wobr Undeb yr Awduron. Enwebwyd y gyfres, a ddangoswyd ar S4C yn yr hydref am wobr yn y categori Drama Deledu Hir Orau gyda Line of Duty, Cyfres 4 (Jed Mercurio) a Taboo.

Cefnogodd Llywodraeth Cymru ddrama lwyddiannus a phoblogaidd tu hwnt y BBC, *Un Bore Mercher/ Keeping Faith* a gynhyrchwyd yn ddwyieithog gan arddangos y dalent orau o Gymru. Darlledwyd y ddrama yn Gymraeg ar S4C yn gyntaf gydag Eve Myles (sy'n portreadu'r prif gymeriad Faith Howells) yn dysgu Cymraeg yn unswydd ar gyfer y gyfres ddwyieithog hon. Ffilmiwyd golygfeydd y llys yn Neuadd y Dref Caerfyrddin a Neuadd y Ddinas Abertawe. Ffilmiwyd llawer o'r golygfeydd allanol yn Nhalacharn; roedd gorsaf yr heddlu wedi'i lleoli ym Mhontardawe ac fe ddefnyddiwyd cefndir Port Talbot mewn rhai golygfeydd, yn cynnwys pysgodfa'r North Bank.

Defnyddir y de-orllewin fel lleoliad ffilmio yn aml ac mae enghreifftiau eraill yn cynnwys:

- *Their Finest Hour and a Half* - comedi rhamantaidd hanesyddol wedi'i ffilmio'n gyfan gwbl yn Abertawe, Hwlffordd a Freshwater West. Treuliodd y criw saith wythnos yn ffilmio yng Nghymru a chafwyd cymorth lleoliad gan Sgrin Cymru, a chefnogaeth ariannol o £30 miliwn gan Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau Llywodraeth Cymru. Gwariodd y cynhyrchiad £1.6 miliwn ar nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru.
- *Dan y Wenallt* - cafodd dehongliad ffilm o ddrama glasurol Dylan Thomas Under Milk Wood ei ffilmio yn Solfach, pentref harbwr ym Mae Sain Ffraid, Sir Benfro;
- *Set Fire To The Stars* – ffilm hir am Dylan Thomas, gyda Elijah Wood a Celyn Jones, wedi'i ffilmio yn Abertawe yn bennaf. Fe'i henwebwyd am Oscar yn y categori 'Best Original Score' ac am saith gwobr BAFTA Cymru yn 2015, gan ennill dwy wobr.

- *From A Jack To A King* – ffilm hir gyntaf YJB Films, ffilm ddogfen yn adrodd hanes 10 mlynedd diwethaf Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe wrth iddo godi o'r adran isaf yng nghynghreiriau pêl-droed Lloegr i'r Uwch Gynghrair.
- Bu cyfres ddrama proffil uchel Sky, *Britannia,* hefyd yn ffilmio golygfeydd allweddol yn Rhosili ar Benrhyn Gŵyr, Abertawe.

Yr Egin - Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £3 miliwn i gefnogi Yr Egin. Bydd hyn yn helpu i adeiladu adeilad newydd ar gyfer darparu llety i gwmnïau, lle i ddatblygu busnesau newydd yn y sectorau creadigol a digidol yn ogystal â lle i gynnal digwyddiadau, awditoriwm agored ac ystafelloedd cynhyrchu a golygu y gallai'r cwmnïau a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant eu defnyddio. Bwriad y Brifysgol yw gweld Yr Egin yn dod yn gyfrwng ar gyfer clwstwr o fusnesau creadigol yng Nghaerfyrddin, gydag S4C fel ei brif denant. Mae'n gobeithio y bydd hyn yn ei dro yn helpu'r economi leol, gan ddod â swyddi ychwanegol o safon uchel i Gaerfyrddin, cadarnhau cysylltiadau rhwng y byd academaidd a busnesau creadigol a chefnogi'n hymrwymiad ehangach i hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw a hyfyw.

Tinopolis yw un o brif gwmnïau'r sector diwydiannau creadigol. Wedi'i leoli yn Llanelli, mae'n un o brif gwmnïau cynhyrchu'r DU - ac un o'r rhai annibynnol olaf. Ron Jones yw Cadeirydd Gweithredol Grŵp Tinopolis, sydd hefyd yn Gadeirydd y Panel Sector Diwydiannau Creadigol ac yn aelod o'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau. Mae Tinopolis yn gyfrifol am raglenni teledu fel Question Time a Crufts ac yn cynhyrchu darllediadau BT o'r Uwch Gynghrair a Chynghrair y Pencampwyr.
Mae Tinopolis wedi gwneud nifer o gytundebau mawr yn UDA dros y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys curo ITV i brynu Magic Elves, sy'n cynhyrchu rhaglenni poblogaidd fel Master Chef.

Fel cwmni cynhyrchu teledu annibynnol allweddol mae Tinopolis yn gwneud cyfraniad pwysig yn is-sector ffilm a theledu Cymru. Mae'n llwyddiannus yma ac yn rhyngwladol, ac wedi sicrhau twf cynaliadwy drwy fuddsoddiad i ddod yn ddarparwr cynnwys teledu o bwys.

**Y De-ddwyrain**

Y de-ddwyrain yw'r clwstwr mwyaf ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu yng Nghymru. Mae llawer o gynyrchiadau wedi ffilmio ac yn parhau i ffilmio ledled y de-ddwyrain. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:

- *Born to Kill* – cyfres ddrama bedair rhan mawr ei bri a ddarlledwyd ar Channel 4 yn 2017 gyda chefnogaeth BBC Worldwide a Llywodraeth Cymru.
- *Decline and Fall* – addasiad drama gomedi tair rhan o nofel Evelyn Waugh a gyhoeddwyd ym 1928, a ddarlledwyd ar BBC One yn Ebrill 2017.
- *The State (Crossing the Border* gynt*)* – cafodd drama flaenllaw Archery Picture ar gyfer Channel 4 ei ffilmio mewn sawl lleoliad yng Nghaerdydd.
- *Requiem* – cyfres ddrama flaenllaw chwe rhan ar gyfer BBC1, a ffilmiwyd mewn lleoliadau ledled Cymru, yn cynnwys Parc Treftadaeth y Rhondda a Chefn Tila ger Brynbuga.
- *Kiri* - cyfres ddrama 4 pennod 60 munud o hyd ar gyfer Channel 4 a gyd-gynhyrchwyd gan All3 Media a Hulu a'i ffilmio yn y de-ddwyrain. Fe'i hysgrifennwyd gan Jack Thorne, yr ail yn ei drioleg o ddramâu sy'n archwilio'r gwrthdaro rhwng y cyfryngau ac achosion troseddol/cyfreithiol dadleuol.

**Bad Wolf**

Ym mis Mehefin 2015, ymrwymodd Bad Wolf, y cwmni cynhyrchu teledu, i leoli ei weithrediadau yng Nghymru. Penaethiaid Bad Wolf Cyf yw Jane Tranter a Julie Gardner, cyn-swyddogion gweithredol gyda BBC Worldwide sydd am fanteisio i'r eithaf ar eu cysylltiadau yn yr UDA a'u Heiddo Deallusol er mwyn sicrhau, datblygu a chynhyrchu casgliad o brosiectau drama o safon uchel ar gyfer y teledu yng Nghymru.

Mae Bad Wolf wedi nodi casgliad o gynyrchiadau teledu gyda chyfanswm cyllideb gwerth £290 miliwn a mwy dros y 10 mlynedd nesaf. Roedd swyddogion wedi cynnwys £108 miliwn[1] ohono i'w wario ar gynyrchiadau Cymreig fel un o rag-amodau cynnig Llywodraeth Cymru o gymorth o hyd at £9 miliwn. Er mwyn sicrhau bod Bad Wolf a'i gasgliad o gynyrchiadau yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru, dyfarnwyd cyllid Llywodraeth Cymru i Bad Wolf sy'n cynnwys taliad ymlaen llaw i'w ad-dalu a grant. Mae Bad Wolf Ltd bellach wedi sefydlu swyddfeydd yng Nghaerdydd a Los Angeles (LA) ac wedi cymryd drosodd adran ddatblygu Cynyrchiadau BBC Worldwide sy'n cynnwys 45 o brosiectau, gan gychwyn gyda dwy gyfres hirhoedlog sy'n dychwelyd ac a gomisiynwyd gan ddarlledwyr y DU:

- All Souls Trilogy, gan Deborah Harkness, a'r gyntaf yw *A Discovery of Witches*. Cafodd y gyfres gyntaf ei ffilmio yn Stiwdio Blaidd Cymru ac ar leoliad yng Nghymru. Bydd Bad Wolf yn ceisio addasu'r tri llyfr sydd yn y gyfres ar gyfer y teledu.

- *His Dark Materials*, gan Phillip Pullman, addasiad o drioleg glasurol gyfoes o nofelau ar gyfer y BBC. Mae ganddo gyllideb gwerth £48 miliwn a disgwylir y bydd 60% (£28.8 miliwn) yn cael ei wario yng Nghymru. Mae'r gyfres yn debygol o redeg am bum cyfres, gydag wyth pennod yn cael eu ffilmio ar hyn o bryd yn Stiwdio Blaidd Cymru ac ar leoliad yng Nghymru.

Yn dilyn derbyn cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyrchiadau, mae Bad Wolf wedi sicrhau buddsoddiadau sylweddol eraill i'r cwmni;

- Mae Access Entertainment, un o isadrannau Access Industries, wedi prynu 24.9% o Bad Wolf;
- Mae Sky a HBO wedi prynu cyfran fach yr un ac wedi cael seddi ar y Bwrdd. Fel rhan o'r fargen, bydd Bad Wolf yn cyflenwi drama i'r gydbartneriaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar rhwng Sky a HBO, gyda'r nod o gyllido dramâu ar raddfa fawr ar gyfer y farchnad deledu ryngwladol.

**Y Canolbarth**

Mae *Y Gwyll / Hinterland* yn gyfres ddrama dditectif gyfoes ar gyfer y teledu wedi'i lleoli yn Aberystwyth a'r cyffiniau. Daeth S4C a BBC Wales ynghyd ar gyfer *Hinterland,* sef drama i Gymru gyfan.

Ffilmiwyd tair cyfres ar draws sawl lleoliad yn Aberystwyth a'r fro ac yng Ngheredigion, ac fe gynhyrchwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r rhaglen cefn wrth gefn. Mae *Y Gwyll / Hinterland* yn ddrama o ansawdd nid yn unig i gynulleidfa ddomestig drwy'r darlledwyr S4C a BBC Wales ond hefyd i gynulleidfa'r DU gyfan wrth iddi gael ei darlledu ar BBC4, ac i gynulleidfa ryngwladol drwy'r partner dosbarthu ALL3MEDIA. Mae'r prosiect hwn yn

[1] Mae Bad Wolf wedi gallu cadarnhau ers hynny y bydd y gwariant hwn yn cynyddu i £128M fel rhan o gytundeb Stiwdio Blaidd Cymru.

cefnogi amcan Llywodraeth Cymru o gynorthwyo cwmnïau cynhenid Cymreig i fanteisio ar farchnadoedd rhyngwladol.

*Y Gwyll / Hinterland* oedd yr enillydd yn y categori Drama Orau yng Ngŵyl y Cyfryngau Celtaidd 2014. Enwebwyd y gyfres hefyd yn y categorïau Drama Orau ac Actor Gorau ym Monte Carlo.

**b. Effaith ddiwylliannol a'r Gymraeg**

**Polisi'r Cyfryngau**

Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r BBC er mwyn sicrhau bod siarter newydd y BBC yn rhoi pwrpas cyhoeddus cryfach o lawer i'r BBC er mwyn adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol Cymru. Bellach, gallwn ddisgwyl mwy o gynnwys a gwell cynnwys a rhaglenni ar gyfer Cymru, am Gymru, ac yng Nghymru ar draws gwasanaethau'r BBC. Roedd ein cyfraniad uniongyrchol yn y broses o adnewyddu'r Siarter yn hanfodol wrth sicrhau'r gwelliannau hyn. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen cyllid priodol ac rydym wedi pwysleisio'n barhaus fod yn rhaid i unrhyw arian sy'n cael ei addo i Gymru o'r newydd fod yn wirioneddol ychwanegol. Felly, roeddem yn croesawu'r cyhoeddiad a ddaeth ym mis Chwefror 2017, y bydd BBC Cymru Wales yn derbyn cyllideb ychwanegol ar gyfer rhaglenni, ac y bydd yn lansio rhai gwasanaethau newydd. Cafwyd rhywfaint o gynnydd i'r gyllideb sydd ar gael yn 17/18, gan godi i'r cynnydd ychwanegol llawn o £8.5 miliwn erbyn 19/20. Bydd ar gael i gomisiynwyr i ddarparu rhaglenni Saesneg eu hiaith newydd ar gyfer Cymru, cynnydd o 50% ar y gyllideb sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd. Bydd hyn yn galluogi'r BBC yng Nghymru i gomisiynu mwy o raglenni a fydd wir yn adlewyrchu bywydau pobl yng Nghymru ac yn gwneud yn siŵr bod mwy o raglenni fel hyn yn cael eu gweld ar draws rhwydwaith y DU.

Mae'r cyllid newydd yn cefnogi ehangiad sylweddol mewn rhaglenni drama, comedi a ffeithiol nodedig, gan gynnwys y casgliad o gyfresi drama mwyaf erioed yn yr iaith Saesneg ar gyfer y teledu wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd tair prif ddrama a ffilmiwyd yng Nghasnewydd, Sir Gaerfyrddin a'r Gogledd-orllewin yn cael eu darlledu ar y BBC yn 2018. Mae dwy eisoes wedi'u darlledu, gan ddenu canmoliaeth gan y beirniaid ac maen nhw wedi bod yn boblogaidd ymhlith cynulleidfaoedd – *Un Bore Mercher/Keeping Faith* gydag Eve Myles a *Requiem* gyda Lydia Wilson a Richard Harrington. Llywodraeth Cymru a gyllidodd y ddau gynhyrchiad hyn ar y cyd â'r BBC (ac yn achos *Un Bore Mercher/Keeping Faith* S4C), er mwyn sicrhau bod y buddion economaidd a diwylliannol gorau oll yn aros yn yr ardal.

Penodwyd Chris Aird, comisiynydd drama rhwydwaith newydd i Gymru hefyd, er mwyn sicrhau bod Cymru yn cael ei hadlewyrchu'n well ar y sgrin.

Yn ychwanegol at hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gofyn i Ofcom am beth amser i osod cwotas cynhyrchu mwy heriol y tu allan i Lundain ar gyfer darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus. Felly, rydym yn croesawu ymrwymiad newydd sylweddol Channel 4 i gynyddu'r arian sy'n cael ei wario ar gynyrchiadau yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau o'i gwota cyfredol o 35% i darged newydd gwirfoddol o 50% erbyn 2023. Bydd hyn yn arwain at hwb cronnus o dros £250 miliwn yng ngwariant Channel 4 ar gomisiynau yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau.

Mar strategaeth '4 All the UK' Channel 4 yn ddull newydd arwyddocaol ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau sydd i'w groesawu'n fawr, un a ddylai yn gyffredinol sicrhau buddion go iawn i'r sector diwydiannau creadigol ledled Cymru. Rydym yn gytûn y byddai Cymru yn

gartref gwych i Channel 4. Mae ein diwydiannau creadigol yn ffynnu ac mae gennym enw da yn rhyngwladol fel cartref i ddrama, cynhyrchu, sgiliau a thalent.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio er mwyn mynd ati'n uniongyrchol i gynorthwyo Channel 4 i ddatblygu a sicrhau dyfodol gwerth chweil yng Nghymru ac mae swyddogion eisoes mewn trafodaethau â Chyngor Caerdydd a'i bartneriaid. Rydym yn disgwyl y bydd y cynnig hwn yn cynyddu cyfleoedd ac yn darparu manteision i bobl a busnesau ar hyd a lled Cymru.

Cafwyd cynigion o rannau eraill o Gymru i groesawu Pencadlys cenedlaethol newydd Channel 4 neu un o'i ganolfannau creadigol. Mae'n siom nad oes unrhyw un o'r cynigion eraill yn symud ymlaen, ond rydym eisoes yn trafod y posibilrwydd o ddatblygu'r cynigion hynny mewn ffyrdd eraill gyda'r awdurdodau dan sylw.

**Cynyrchiadau Cymraeg**

Mae cymorth neu fuddsoddiad ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau ffilm a theledu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ein cymorth yn amodol ar fodloni amryw o feini prawf, gan gynnwys yr angen i ddangos marchnad ryngwladol, gwario swm sylweddol o'r gyllideb gynhyrchu yng Nghymru a chryfder yr elw economaidd tebygol. Fodd bynnag, prif nod holl gymorth Llywodraeth Cymru yw cryfhau'r sector ffilm a theledu yng Nghymru trwy sicrhau bod pobl Cymru, lleoliadau Cymru a chwmnïau Cymru'n elwa trwy unrhyw fuddsoddiadau a wneir.

Ers 2011 a hyd at 30 Mai 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi 14 o gynyrchiadau Cymraeg, ar y cyd ag S4C, gyda chyllid ychwanegol o dros £2.3 miliwn yn cael ei gynnig:

| Teitl y Cynhyrchiad | Lleoliad | Gwerth y Cynnig |
|---|---|---|
| *Igam Ogam* | Animation Studio, Caerdydd | £75,000 |
| *Y Syrcas* | Ar leoliad, Gorllewin Cymru | £20,000 |
| *Dan Y Wenallt* | De-orllewin Cymru | £35,000 |
| *Boj* | Cloth Cat Animation Studio, Caerdydd | £200,000 |
| *Twt* | Cloth Cat Animation Studio, Caerdydd | £550,000* |
| *Cestyll* | Gogledd Cymru | £45,000 |
| *Y Gwyll Cyfres 1* | Ar leoliad, Ceredigion | £215,000 |
| *Y Gwyll Cyfres 2* | Ar leoliad, Ceredigion | £304,000 |
| *Y Gwyll Cyfres 3* | Ar leoliad, Ceredigion | £250,000 |
| *Un Bore Mercher* | Ar leoliad, Gorllewin Cymru | £328,000 |
| *Mynddoedd Y Byd* | Lleoliadau rhyngwladol | £30,000 |
| *Y Wal2* | Lleoliadau rhyngwladol | £45,000 |
| *Bang* | Ar leoliad, Castell-nedd Port Talbot | £350,000 |
| *The Rubbish World of Dave Spud (Illuminated Productions Ltd)* | Cloth Cat Animation Studio, Caerdydd | £90,000 |

* Cyllid Busnes i Lupus Films Ltd hyd at uchafswm o £550,000, gyda £350,000 ohono wedi'i ddyrannu i Twt a £200,000 i'r ffilm deledu wedi'i hanimeiddio, Ethel & Earnest.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi cyfryngau gweledol cyfrwng Cymraeg o'r safon uchaf trwy ein cwmnïau brodorol megis Boom Cymru, Rondo Media, Cwmni Da, Telesgop ac Avanti Media.

Rydym ni hefyd wedi gweld cynnydd mawr yn y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i chydnabod fel iaith ryngwladol, gydag *Y Gwyll* a *Bang* yn cael eu gwerthu'n fyd-eang.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau Cymru mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, yn ddiweddar fe wnaethom ni gefnogi Boom Cymru, sef un o'r cynhyrchwyr cynnwys teledu mwyaf yng Nghymru, i atgyfnerthu ei bresenoldeb yn adeilad diwydiannau creadigol blaenllaw Llywodraeth Cymru, sef Gloworks ym Mhorth Teigr, gyda chymorth grant Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru o £115,125 (rhan ohono i'w ad-dalu, ond nid y rhan arall).

Boom Kids, sef is-adran Boom Cymru, yw prif gynhyrchydd rhaglenni i blant cyn ysgol a gwylwyr iau o dan ambarél *Cyw* a *Stwnsh* S4C. Mae'n un o gynhyrchwyr rhaglenni teledu i blant 6-13 oed mwyaf y DU. Mae'r isadran yn cyflogi dros 50 o staff llawn amser a bydd grant Llywodraeth Cymru yn helpu i sicrhau 41 o swyddi cyfredol.

Yn ogystal â sicrhau dyfodol Boom Cymru, bydd y cyfleuster yn rhoi llwyfan i'r diwydiant teledu yng Nghymru ac yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r adleoli yn golygu adeiladu cyfleusterau stiwdio heb eu hail a gwasanaethau cysylltiedig lle byddai Boom Kids yn cynhyrchu *Stwnsh* a *Cyw*, ynghyd â gwella ei broffil cyhoeddus a darparu gwasanaeth diwylliannol ac addysgol heb ei ail i ddysgwyr Cymraeg a phlant Cymru yng nghanol Bae Caerdydd. Nod y cwmni yw denu plant i ryngweithio â'r cyfleusterau trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau stiwdio a chynnig ymweliadau set.

Wrth ystyried ceisiadau am gyllid yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried y manteision diwylliannol. Bydd prosiectau sy'n dangos ymrwymiad cryf i Gymru, o ran doniau allweddol, canolfan hirdymor ac ymrwymiad i wariant a hyfforddiant yng Nghymru, yn cael blaenoriaeth ar gyfer cymorth.

### c. Gwerth am arian

**Cyllid Busnes / Cronfa Sgrîn Cymru**

Disgwylir i brosiectau cynhyrchu sy'n derbyn cyllid grant wario swm sylweddol o arian ar gyflenwyr, cast, criw a chyfleusterau lleol h.y. 'gwariant ar Gymru'.

Ers 2012-13, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn defnyddio cymhareb darged o 12:1, lle mae'n rhaid i brosiectau ddangos o leiaf £12 o fuddsoddiad am bob £1 a werir gan Lywodraeth Cymru.

Targed yw'r gymhareb hon, ac efallai y derbynnir cymarebau is ar gyfer prosiectau â manteision tymor hwy (e.e. canolfan barhaol yng Nghymru, doniau allweddol o Gymru yn gysylltiedig â'r cynhyrchiad, cyfleoedd hyfforddi sylweddol) a / neu brosiectau sy'n addas yn strategol e.e. (drama deledu o'r safon uchaf).

Mae gwerth gwariant yng Nghymru o ganlyniad i gynhyrchiad ffilm a theledu yn cael ei nodi yng nghofnodion y prosiect ac mewn dogfennau a gyflwynir i'r adran pan ddaw'r prosiect i ben.

Ers 2012-13, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni cymhareb o 10:1 ar gyfartaledd – hynny yw, mae bron i £11 miliwn mewn cyllid wedi cynhyrchu gwariant o £120 miliwn yn uniongyrchol i economi Cymru. Mae'r ffigur hwn ond yn cynnwys y prosiectau hynny sydd wedi eu cwblhau ac wedi cadarnhau eu gwariant ar Gymru.

Mae swyddogion wedi cynnal ymchwil bwrdd i feincnodau cymarebau cyllid-i-wariant-lleol mewn rhanbarthau eraill yn y DU. Gwelwyd bod amrywiaeth mawr yn yr elw disgwyliedig,

yn ôl rhanbarth a'r math o brosiect. Er enghraifft, mae gan Northern Ireland Screen gymhareb ddangosol o 8 i 1 (er y gall hyn newid yn unol â'r math o gynhyrchiad a'r buddsoddiad).

**Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau**

Ar gyfer cynyrchiadau a gefnogir trwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, y meini prawf hyd yma yw bod rhaid i brosiectau gyflawni 50% o'i brif ffotograffiaeth yng Nghymru a gwario o leiaf 35% o'u cyllideb ar wariant lleol islaw'r llinell[2]. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i gyfuno â gofyniad ar i'r holl gyllid masnachol gydymffurfio ag Egwyddor Gweithredwr Economi'r Farchnad (MEOP) a chael ei ad-dalu'n llawn.

Mae pa mor fasnachol yw prosiectau sy'n gwneud cais am gyllid trwy'r llwybr hwn yn cael ei ddilysu gan arbenigwyr allanol yn y cyfryngau a'i ystyried gan banel o arbenigwyr yn y cyfryngau. Ni fyddai cyllid yn cael ei argymell ar gyfer unrhyw brosiect yr ystyrir nad yw'n cydymffurfio â MEOP.

Mae'r panel arbenigol yn asesu'r lefel a'r math o gyllid y gofynnir amdano ac yn ystyried tebygolrwydd ei botensial i sicrhau elw ar fuddsoddiad, yn seiliedig ar, ond nid yn gyfyngedig i, ragamcaniadau gwerthu annibynnol, sut mae prosiectau tebyg wedi perfformio yn y farchnad a hanes y tîm cynhyrchu.

Ni all gwerth am arian gael ei ystyried yn yr un modd ag ar gyfer prosiectau cyllid grant gan fod angen sicrhau cydbwysedd rhwng y potensial ar gyfer elw masnachol a'r manteision i Gymru. Er enghraifft, efallai y bydd prosiect a all dderbyn £1 miliwn mewn cyllid ond yn gwario £2 filiwn ar nwyddau a gwasanaethau lleol (cymhareb o 2:1); fodd bynnag, pe bai'r cyllid yn cael ei ad-dalu'n llawn i Lywodraeth Cymru byddai hynny'n golygu gwariant o £2 filiwn heb gost.

Rhaid cydnabod bod ad-daliad llawn unrhyw fuddsoddiad masnachol mewn cynhyrchiad ffilm a theledu yn gwbl ddibynnol ar lwyddiant y cynhyrchiad ffilm a / neu deledu.

Yn ddiweddar, mae swyddogion wedi bod yn archwilio sut i ddiwygio cyfrifiadau gwerth am arian y sector a'r sail resymegol dros gyllid ar gyfer ffilm a theledu i adlewyrchu'n well newidiadau yn y farchnad ac i osod sylfaen gadarn ar gyfer cymorth i'r sector yn y dyfodol trwy Cymru Greadigol.

**3. Sut gall cymorth i'r sector gael ei effeithio gan Gynllun Gweithredu ar yr Economi newydd Llywodraeth Cymru**

Credwn fod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (EAP) a'n hymrwymiad i sefydlu Cymru Greadigol yn cyfateb i'w gilydd; mae'r ddau yn cefnogi ymagwedd gyfannol a gwell gwaith rhanbarthol ac yn cydnabod yr angen am fesurau effaith ehangach. Bydd Cymru Greadigol yn derbyn pwyslais yr EAP ar waith teg a hyrwyddo sgiliau.

Mae contract economaidd yr EAP yn taro deuddeg gyda'r synergeddau rhwng y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol a'u gallu i greu manteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Bydd y gofyniad hwn i fod yn fwy cyfrifol yn gymdeithasol yn rhan annatod o'n gwaith gyda'r sector yn y dyfodol.

[2] Gellir diffinio gwariant islaw'r llinell fel yr holl gostau cynhyrchu ac eithrio'r doniau creadigol – megis Actorion, Cyfarwyddwr, Cynhyrchwyr ac Awduron o'r criw arall.

Bydd y meini prawf newydd ar gyfer cyllid yn darparu cyfleoedd i gwmnïau'r diwydiannau creadigol, a gallant hybu meysydd sy'n cyfateb i'n cynlluniau strategol. Er enghraifft:

- Mae cwmnïau'r diwydiannau creadigol o flaen eu hamser o ran capasiti ar gyfer arloesi a rhoi cynnig ar bethau newydd.
- Mae entrepreneuriaeth yn gyffredin yn y sector ac yn rhywbeth rydym ni eisiau ei annog.
- Mae natur ddigidol llawer o allbwn y sector yn hawdd ei hallforio ar draws ffiniau (os yw'r hawlfraint a'r amddiffyniadau eiddo deallusol angenrheidiol ar waith) a hoffem weld mwy o fasnach ryngwladol.

Felly, mae yna gyfleoedd i alinio, gan gydnabod y gwahanol fecanweithiau a chamau sydd angen eu cyflwyno i gefnogi'r diwydiannau creadigol.

Mae tystiolaeth wedi dangos bod y prif gyfleoedd twf ar draws y sector sydd fwyaf tebygol o arwain at greu swyddi a chyfoeth i'w cael trwy fanteisio ar gynnwys creadigol (eiddo deallusol) ar blatfformau digidol.

Felly, bydd gweithgareddau Cymru Greadigol yn ategu'r EAP er mwyn cefnogi'r diwydiannau newydd hyn sy'n creu cyfoeth a swyddi trwy greu, caffael, cadw a manteisio ar eiddo deallusol.

Rydym yn cydnabod bod yna rai meysydd lle bydd angen i ni weithio gyda'r model newydd i sicrhau ei fod yn gallu addasu i rai o nodweddion y sector diwydiannau creadigol, megis:

- Cwmnïau bach, micro a sero yw dros 90% o'r sector, felly dylai rhai gofynion fod yn gymesur â chapasiti'r cwmnïau.
- Mae llawer o gwmnïau yn y sector yn cynhyrchu eiddo deallusol anniriaethol, yn hytrach na chynhyrchion neu wasanaethau.
- Mae'r defnydd o weithwyr llawrydd yn endemig, a gall hynny ei gwneud hi'n anodd dangos tystiolaeth o waith teg.

**4. I ymchwilio i sut mae Ffilm Cymru Wales (FCW), y BFI ac eraill yn cefnogi'r sector, a sut mae'r gwaith hwn yn ategu gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn**

Mae FCW yn cefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr o Gymru neu a leolir yng Nghymru gyda chyllid datblygu a chynhyrchu, cymorth yn y diwydiant a chyfleoedd mentora, gyda chylch gwaith BFI o ran cyllid yw cefnogi gwneuthurwyr ffilmiau a ffilmiau'r DU.

Mae gwaith tîm sector diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n bennaf ar ehangiad ac effaith y diwydiant ffilm a theledu ar economi Cymru. Felly, disgwylir y bydd yna achlysuron pan fydd cynhyrchiad yn cyd-fynd â nodau'r tri sefydliad ac, yn wir, mae Llywodraeth Cymru wedi cyd-fuddsoddi yn y cynyrchiadau canlynol gyda Ffilm Cymru Wales:

- Red and Black Films (Don't Knock Twice Ltd.): *Don't Knock Twice*, Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (£629,516) a Chyllid Busnes (£75,000)
- Ffilm Vox Pictures (Eternal Beauty Productions Ltd.): *Eternal Beauty*, Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (£1,050,000)
- Red and Black Films (Pandora Films Ltd.): The Machine, Cyllid Busnes y gellir ei ad-dalu *de minimis* (£80,000)
- Cyfrwng digidol le le Productions Ltd. ar gyfer y rhaglen ddogfen *American Interior,* Cronfa Datblygu Digidol (£49,900)

- Ffilm Severn Screen Ltd. (Coracle Picture Limited): *Denmark,* Cyllid Busnes (£85,000)
- fFati fFilms: *Y Syrcas*, Cyllid Busnes y gellir ei ad-dalu *de minimis* (£20,000)
- fFati fFilms: Dan Y Wenallt / Under Milk Wood, nawdd Llywodraeth Cymru (£35,000)
- Set Fire To The Stars Productions Ltd: *Set Fire to the Stars*, Cyllid Busnes y gellir ei ad-dalu *de minimis* (£48,000)
- Ffilm wedi'i hanimeiddio Lupus Films Raymond Briggs: *Ethel and Earnest* ar gyfer BBC1, Cyllid Busnes (£200,000 o gynnig o £550,000 a oedd yn cynnwys £350,000 wedi'i ddyrannu i Twt)
- Gritty Realism Productions Ltd: *Heart of Darkness*, Cyllid Busnes (£150,000)

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyd-fuddsoddi yn y cynyrchiadau canlynol gyda'r British Film Institute:

- Ffilm Journey's End Films Limited: *Journey's End*, Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (£850,000)
- Ffilm Vox Pictures (Eternal Beauty Productions Ltd.): *Eternal Beauty*, Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (£1,050,000)

**5. Y cymorth a roddir i ddatblygu sgiliau a mynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y diwydiant, a oes digon o ddata i fapio'r sgiliau presennol.**

Yn hanesyddol, mae cylch gwaith tîm Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar dyfu'r sector a helpu busnesau i dyfu, yn hytrach na sgiliau. Er gwaethaf hynny, erbyn 2012, roedd hi'n amlwg na ellid cynnal unrhyw fomentwm twf yn y diwydiant sgrin oni bai bod cymorth ar gyfer datblygu sgiliau'r diwydiant a gwella'r biblinell talent. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi:

- ariannu cyfres o leoliadau llawn amser a alluogodd chwe hyfforddai i weithio ar gynhyrchiad *Da Vinci's Demons*;
- ariannu It's My Shout a Theatr Ieuenctid Gorllewin Morgannwg ar gyfer prosiectau penodol;
- sefydlu cysylltiadau gwaith â sefydliadau addysgol a sefydliadau eraill, gan gynnwys ysgolion, Gyrfa Cymru, sefydliadau AB/AU (arweinwyr Diwydiannau Creadigol yng Ngholeg Cambria, Coleg y Cymoedd, Coleg Caerdydd a'r Fro, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Caerdydd ac ati);
- cydariannu prosiect addysg Cynghrair Sgrîn Cymru gyda Creative Skillset;
- ariannu adroddiad ar godi arian i ddatblygu 'esiamplau o ragoriaeth' ar gyfer drama ieuenctid ledled Cymru.

Mae gwaith sydd ar y gweill ar gyfer y dyfodol agos yn cynnwys:

- Digwyddiad Amrywiaeth mewn Ffilm a Theledu - Diwrnod dwys gyda mentora a chymorth i ddilyn i gynyddu amrywiaeth y diwydiant sgrin yng Nghymru a gwella mynediad i grwpiau o bobl heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru berthynas waith ac aliniad strategol da â Creative Skillset; mae Creative Skillset wedi ennill y contract i ddarparu cronfa sgiliau BFI Film Futures, sef cronfa £20 miliwn i wella sgiliau ffilm ledled y DU dros y pum mlynedd nesaf.

Mae gwasanaeth Sgrîn Cymru Llywodraeth Cymru (sy'n rhan o dîm y sector Diwydiannau Creadigol) wedi cyfrannu at fynd i'r afael â rhai o'r bylchau sgiliau yn y diwydiant trwy

gynnal cyfweliadau â chynhyrchwyr sydd wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru a monitro ble mae'r bylchau, pa welliannau y gellid eu gwneud ac ati.

Yn ogystal, mae Sgrîn Cymru:

- wedi darparu cyllid ar gyfer cynllun 'Camu Fyny' Sgil Cymru (2017-2018), sef menter hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol dramâu teledu yng Nghymru, gan alluogi'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiant i ddatblygu eu gyrfa, ac arbenigwyr cymwys i symud i'r byd teledu. Cafwyd arian cyfatebol gan Ardoll *'High End TV Levy*' Creative Skillset ar ben cyllid Llywodraeth Cymru.
- yn hyrwyddo cwmnïau criw a chyfleusterau lleol yn rheolaidd trwy gronfa ddata ar-lein eang i gynyrchiadau sy'n cael eu ffilmio ledled Cymru;
- yn rhannu cyfleoedd am swyddi ar gynyrchiadau sy'n chwilio am griw yng Nghymru trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan gyrraedd y rhai nad ydynt wedi cofrestru ar y gronfa ddata;
- yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio gydol y flwyddyn, gan gyflwyno cynyrchiadau mewnfuddsoddi newydd i'r criwiau a'r cyfleusterau yma gan alluogi cynhyrchwyr lleol i gyfarfod â chwmnïau sy'n sefydlu canolfannau newydd yng Nghymru;
- yn annog cwmnïau cyfleusterau i sefydlu canghennau yng Nghymru, gan roi mwy o ddewis i gynhyrchwyr o ran eu 'gwariant ar Gymru';
- yn hyrwyddo cyrsiau hyfforddi perthnasol yn y diwydiant sy'n cael eu rhedeg gan y Production Guild, Sgil Cymru a Creative Skillset ac ati.

**Cymorth sgiliau yn y dyfodol**

Mae sefydlu Cymru Greadigol yn gyfle i adolygu a gwella'r ddarpariaeth cymorth sgiliau a hyfforddiant yn y sector ffilm a theledu yng Nghymru. Ar ran Llywodraeth Cymru, bydd Cymru Greadigol yn cyfrannu at bolisi a gweithgarwch i gynhyrchu gweithlu mwy o faint a mwy medrus i wasanaethu'r sector.

Er mwyn manteisio'n llawn ar yr hwb yn y byd cynhyrchu, mae'n glir bod angen i Gymru gyflenwi mwy o griwiau a chriwiau wedi'i hyfforddi'n well. Bydd hyn yn golygu hyfforddi pobl newydd gyda'r sgiliau gofynnol ac uwchsgilio gweithwyr presennol yn y diwydiant.

Mae yna ddadl glir o blaid Cymru Greadigol, fel corff datblygu economaidd, yn cynnwys ei hun yn y gwaith cymorth sgiliau. Mae llwyddiant economaidd y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru yn dibynnu ar sgiliau'r bobl sy'n gweithio ynddo. Dyma faes gweithgarwch sy'n cael ei gyflawni gan Creative England a Creative Scotland.

Un maes lle bydd gwella sgiliau yn cael effaith uniongyrchol ar yr economi yw sicrhau bod cynyrchiadau sy'n cael eu ffilmio yng Nghymru yn gallu cynyddu eu gwariant ar Gymru. Mae'r bylchau sgiliau a amlinellir uchod yn gorfodi rhai rolau i gael eu llenwi o'r tu allan i Gymru gan na ellir cael gafael ar bobl â'r sgiliau addas yn lleol.

Bydd angen i Cymru Greadigol weithio gyda chydweithwyr Sgiliau yn Llywodraeth Cymru, sefydliadau AB ac AU a chynrychiolwyr y diwydiant i ystyried effeithiolrwydd y ddarpariaeth bresennol a gofynion i'r dyfodol.

I gynyddu'r elw economaidd i Gymru ac i ddatblygu'r sector, dylai rôl Cymru Greadigol gwmpasu pob math o weithgareddau sy'n cynnwys rôl gydgysylltu lefel uchel. Dylai Cymru Greadigol ddefnyddio partneriaethau a rhwydweithiau, datblygu deallusrwydd y farchnad a darparu gwybodaeth, a throsoleddu arian lle y gall.

Eitem 4.1

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Ms Bethan Sayed
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** HVT/2853/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 11 Mehefin 2018

Annwyl Ms Sayed

## Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol: Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood

Mae'n bleser gennyf amgáu copi dan waharddiad o'm hadroddiad ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood, y byddaf yn ei gyhoeddi yfory, Dydd Mawrth, 12 Mehefin. Mae'r cyfieithiad o'r adroddiad yn cael ei gwblhau nes ymlaen heddiw a bydd copi Cymraeg gyda chi erbyn yfory.

Mae'r adroddiad hwn, a baratowyd gennyf ar sail 'ffeithiau yn unig' (ac sydd felly'n cynnwys dim casgliadau archwilio nac argymhellion), yn edrych i mewn i'r Cytundeb Cydweithio a wnaed rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood ym mis Chwefror 2014 er mwyn hyrwyddo cynhyrchu rhaglenni teledu a ffilmiau yng Nghymru. Mae hefyd yn cyflwyno'r ffeithiau a arweiniodd at derfynu'r cytundeb hwnnw ynghyd â manylion y Cytundeb Gwasanaethau Rheoli a'i holynodd, a gychwynnodd ym mis Tachwedd 2017.

Gwn am yr ymchwiliad y mae eich Pwyllgor yn dal i'w gynnal i Gynhyrchu Ffilmiau a Rhaglenni Teledu pwysig yng Nghymru, a gobeithiaf y bydd f'adroddiad o ryw gymorth i chi yn y gwaith hwnnw. Os byddwch yn dymuno trafod unrhyw agweddau ar yr adroddiad yna bydd Mike Usher, fy Nghyfarwyddwr Prosiect, yn hapus iawn i wneud hynny.

Anfonaf gopi o’r llythyr hwn, ynghyd â’r adroddiad, at Nick Ramsey fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*Amg: The Welsh Government’s relationship with Pinewood*

*cc: Mr Nick Ramsay, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus*.

Mehefin 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru oedd Ian Hughes ac Anwen Worthy o dan gyfarwyddyd Mike Usher.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys

Archwiliodd ein hadolygiad berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood. Dechreuodd hyn gyda'r Cytundeb Cydweithredol a wnaed rhwng Lywodraeth Cymru a Pinewood ym mis Chwefror 2014 i hyrwyddo cynyrchiadau teledu a ffilm yng Nghymru. Rydym yn nodi'r ffeithiau sy'n arwain avt ddod â'r cytundeb hwn i ben, yn ogystal â manylion y Cytundeb Gwasanaethau Rheoli ar ôl hynny a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2017.


Adroddiad cryno 6

Adolygiad ynglŷn â beth yw hwn 6

Canfyddiadau allweddol 8

Rhan 1 – Sefydlu Cytundeb Cydweithredol Llywodraeth Cymru â Pinewood ym mis Chwefror 2014 12

Ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i Gytundeb Cydweithredol â Pinewood i hyrwyddo cynyrchiadau teledu a ffilm yng Nghymru 12

Sefydlodd Llywodraeth Cymru gyllideb o £30 miliwn i fuddsoddi mewn cynyrchiadau ffilm a theledu, a phenodwyd Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd i nodi prosiectau addas i fuddsoddi ynddynt 22

Rhan 2 – Gweithredu'r Cytundeb Cydweithredol tan fis Hydref 2017 25

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Banel Buddsoddi yn y Cyfryngau i benderfynu pa brosiectau a gyflwynwyd gan Pinewood ddylid eu cefnogi gan y gyllideb fuddsoddi 25

Nid oedd perfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn bodloni disgwyliadau'r panel 27

Nid oedd Pinewood Studios Wales Ltd yn gallu gweithredu'r stiwdio fel busnes hyfyw heb gymorth Pinewood Group Limited 30

Rhan 3 – Y trefniadau rheoli diwygiedig o fis Tachwedd 2017 33

Ym mis Hydref 2017, terfynodd Llywodraeth Cymru y Cytundebau Prydlesu a Chydweithredol â Pinewood, a gohiriwyd y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau 33

Ym mis Tachwedd 2017, ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i 'gytundeb gwasanaethau rheoli' tair blynedd newydd gyda Pinewood Studios Wales Ltd 33

Atodiadau 39

Atodiad 1 – Ein dulliau archwilio 39

Atodiad 2 – Amserlen o’r digwyddiadau 40

Atodiad 3 – Dulliau cyffredinol Llywodraeth Cymru o hyrwyddo Cymru fel lleoliad cynyrchiadau ffilm a theledu sy’n creu effaith fawr 41

Atodiad 4 – Y saith math o fuddsoddiad y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud mewn cynyrchiadau teledu a ffilm 42

Atodiad 5 – Cynyrchiadau a gefnogwyd gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, 2014-2018 44

# Adroddiad cryno

## Adolygiad ynglŷn â beth yw hwn

1 Ym mis Chwefror 2014, prynodd Llywodraeth Cymru hen safle'r Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg[1] am £6.3 miliwn i'w ddatblygu'n stiwdio ffilm a theledu mewn cydweithrediad â Pinewood Shepperton Plc (Pinewood).

2 Yn fuan wedi hynny, ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i 'Gytundeb Cydweithredol' gyda dau is-gwmni newydd Pinewood. I Lywodraeth Cymru, roedd y cytundeb yn golygu:

- prydlesu stiwdio Gwynllŵg i Pinewood;
- sefydlu'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gwerth £30 miliwn (lle byddai Pinewood yn dod o hyd i gynyrchiadau addas ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru); a
- noddi Pinewood i farchnata a hyrwyddo'r stiwdio a'r gyllideb fuddsoddi.

3 Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Cydweithredol hwn, dros gyfnod o bum mlynedd, roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl cynhyrchu tua £90 miliwn o wariant ar gynyrchiadau yng Nghymru, gan greu neu ddiogelu o leiaf 1,950 o flynyddoedd o waith cyfwerth ag amser llawn.

4 Er mwyn darparu buddiannau'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, creodd Llywodraeth Cymru Banel Buddsoddi yn y Cyfryngau annibynnol i graffu ar y cynigion buddsoddi a nodwyd ac a gyflwynwyd gan Pinewood.

5 Penderfynodd aelodau'r Panel[2] ym mis Awst 2016 fod y Cytundeb Cydweithredol yn annhebygol o fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran perfformiad y gyllideb fuddsoddi. Ym mis Ionawr 2017, cadarnhaodd Pinewood eu parodrwydd i ail-drafod amodau'r Cytundeb Cydweithredol.

6 Yn dilyn trafodaethau, ymrwymodd Llywodraeth Cymru a Pinewood i 'Gytundeb Gwasanaethau Rheoli' newydd ar 1 Tachwedd 2017.

7 Cafwyd diddordeb gwleidyddol ac yn y cyfryngau ynglŷn â'r cytundeb newydd a'r digwyddiadau yn arwain at hynny. Mynegodd Aelod Cynulliad bryderon gyda'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â thelerau'r cytundeb cydweithredol gwreiddiol a'r cytundeb gwasanaethau rheoli newydd.

8 Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wrthi yn cynnal ymchwiliad i gynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru.

1 Wedi'i leoli rhwng Casnewydd a Chaerdydd.
2 Ar y cyd ag aelodau Panel Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru.

9 Mae'r adroddiad hwn, sy'n nodi'r ffeithiau'n unig, yn amlinellu'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â chytundebau Llywodraeth Cymru â Pinewood. Nid ydym wedi archwilio'r gwerth am arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael o'r Cytundeb Cydweithredol nac effeithiolrwydd ei waith wrth hyrwyddo'r sector hwn o fewn yr economi Gymreig.

10 Mae Atodiad 1 yn nodi ein dulliau archwilio, ac Atodiad 2 yn nodi amserlen y digwyddiadau allweddol.

11 Mae Atodiad 3 yn nodi dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o hyrwyddo Cymru fel lleoliad i gynhyrchu cynyrchiadau ffilm a theledu sy'n creu effaith fawr, tra bod Atodiadau 4 a 5 yn rhoi manylion pellach ynglŷn â'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

## Canfyddiadau allweddol

12 Ym mis Chwefror 2014, prynodd Llywodraeth Cymru hen safle'r Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg am £6.3 miliwn i'w ddatblygu'n stiwdio ffilm a theledu mewn cydweithrediad â Pinewood. Adnewyddwyd yr adeilad ar gost o £3.1 miliwn i Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys y gwaith o atgyweirio'r to gwerth ychydig o dan £1 miliwn – gwaith na chafodd ei ragweld.

13 Yn ogystal, prynodd Llywodraeth Cymru Ffermdy Rhestredig Gradd II fel rhan o'r broses. Roedd angen gwneud gwelliannau gwerth tua £360,000 i fodloni'r safonau angenrheidiol. Er i'r ffermdy gael ei weld fel ased gwerthfawr posib, nid yw wedi'i atgyweirio fel y bwriadwyd ac mae'n parhau'n ddiffaith ar dir gerllaw prif safle Gwynllŵg.

14 Yn fuan ar ôl prynu safle Gwynllŵg, ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i 'Gytundeb Cydweithredol' gyda Pinewood Shepperton Plc i hyrwyddo cynyrchiadau teledu a ffilm yng Nghymru. I Lywodraeth Cymru, roedd y cytundeb yn golygu:

- prydlesu hen safle'r Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg i Pinewood Studio (Wales) Ltd am gyfnod o 15 mlynedd;
- gan ailddatblygu'r safle a'i frandio fel 'Pinewood Studio Wales';
- creu Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gwerth £30 miliwn, i fod ar gael am gyfnod o bum mlynedd i fuddsoddi mewn datblygu, cynhyrchu a dosbarthu cynyrchiadau ffilm a theledu. Sefydlwyd a phenodwyd Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd i nodi a llunio syniadau cynhyrchu i ddefnyddio'r gyllideb; a
- 'noddi' Pinewood Studios (Wales) Ltd i farchnata a hyrwyddo'r stiwdio ffilm a theledu newydd a'r gyllideb buddsoddi yn y cyfryngau ar gost blynyddol o £525,600 dros gyfnod o bum mlynedd.

15 Sefydlodd Llywodraeth Cymru Banel Buddsoddi yn y Cyfryngau annibynnol newydd i benderfynu pa gynyrchiadau a nodwyd gan Pinewood y dylid eu cefnogi gan y gyllideb fuddsoddi a pha fath(au) o becyn cyllido.

16 Erbyn Awst 2016, roedd aelodau'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau a Phanel Sector y Diwydiannau Creadigol yn anfodlon â pherfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, a oedd yn llai na'r disgwyl.

17 Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod £13.8 miliwn o'r gyllideb £30 miliwn wedi'i fuddsoddi ar draws 14 o brosiectau. Hyd yma, mae £4.3 miliwn wedi'i adennill o'r prosiectau a gefnogwyd. Mae un prosiect wedi adennill mwy na'i fuddsoddiad gwreiddiol; mae pedwar prosiect wedi adennill rhywfaint o'u buddsoddiad gwreiddiol a naw prosiect heb adennill unrhyw beth o'u buddsoddiad gwreiddiol. Mae'r prosiectau hyn mewn gwahanol gamau datblygu; nid yw rhai wedi elwa hyd yma o'u rhyddhau mewn sinemâu rhyngwladol neu ar y teledu, a bydd arian yn parhau i gael ei adennill drwy werthiant ychwanegol.

18 Ym mis Awst 2016, cynghorodd swyddogion Llywodraeth Cymru Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith am eu pryderon ynglŷn â pherfformiad y gyllideb. Y pryderon oedd:

- mwy o fuddsoddiadau o risg uwch yn cael eu cyflwyno gan Pinewood oherwydd gallai cynyrchiadau gael cyllid o risg llai o ffynonellau eraill;
- roedd model gweithredu Pinewood yn golygu ei fod yn gyndyn i fuddsoddi ei arian ei hun yn y prosiectau o risg uwch ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru; ac
- efallai bod gwrthdaro o ran cysylltiad Pinewood â'r gyllideb gan fod diddordeb ganddynt mewn darparu ei wasanaethau ei hun i'r diwydiant o Lundain (nid yw hyn wedi'i atal o dan y Cytundeb Cydweithredol). Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo bod gan Pinewood fantais gystadleuol annheg wrth ddiogelu gwaith ôl-gynhyrchu yng Nghymru. Felly, roeddent o'r farn y byddai hyn yn gallu lleihau'r manteision economaidd i Gymru.

19 Erbyn mis Ionawr 2017, roedd perchnogion newydd wedi prynu Pinewood, ac hysbyswyd Llywodraeth Cymru o'u parodrwydd i gyflwyno trefniant newydd i weithredu'r stiwdio. Erbyn hynny:

- roedd Pinewood wedi mabwysiadu model busnes rhyngwladol newydd, gan ganolbwyntio ar ddarparu cyfleusterau stiwdio yn hytrach na buddsoddi'n uniongyrchol mewn cynyrchiadau teledu a ffilm;
- nodwyd bod uchder y to yn Pinewood Studio Wales (25 troedfedd) yn ffactor cyfyngol, gan fod y safle wedi methu croesawu cynyrchiadau ffilm o gyllideb uwch sy'n gofyn am olygfeydd panoramig o'r awyr; a
- nid oedd y galw a ragwelwyd ar gyfer y stiwdio wedi dwyn ffrwyth, gan arwain at ei rhedeg ar golled i Pinewood ar ôl i'r cyfnod di-rent cychwynnol o ddwy flynedd ddirwyn i ben.

20 Dywedodd swyddogion Pinewood wrthym fod agoriad stiwdio cynyrchiadau ffilm a theledu newydd gan Bad Wolf Studios (Wales) Ltd ym Mharc Trident, Caerdydd, ym mis Mai 2017 wedi cael effaith andwyol ar ddeiliadaeth Pinewood Studio Wales. O ganlyniad, roedd nifer yr ymholiadau roeddent yn eu derbyn wedi gostwng, er bod y galw am Pinewood Studios yn dal yn gryf yn y DU.

21 Mae Bad Wolf wedi elwa o becyn cyllid gwerth £9 miliwn gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi'i strwythuro fel benthyciad o £4.5 miliwn i'w ad-dalu yn y lle cyntaf ac y mae modd ei droi'n gyllid grant nad oes rhaid ei ad-dalu os bydd cerrig milltir penodol yn cael eu cyflawni mewn perthynas â gwariant ar gynhyrchu yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau'r £4.5 miliwn arall o'r cyllid hwn fel taliadau grant os bydd targedau gwario ychwanegol yn cael eu cyflawni. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn prydlesu cyfleuster Wolf Studios Wales i Bad Wolf ym Mae Caerdydd, ar delerau masnachol.

22 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym bod y galw am gyfleusterau stiwdio yn amrywio wrth i gynyrchiadau fynd a dod, ond yn eu barn nhw, effeithiwyd ar y galw am safle Gwynllŵg yn sgil newid ffocws ar ôl i berchnogaeth Pinewood newid.

23 Nid yw swyddogion Llywodraeth Cymru yn credu y cafwyd gostyngiad yn yr ymholiadau ar gyfer Pinewood ers agor Wolf Studios Wales. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Sgrîn Cymru wedi cynnal ymweliadau stiwdio gyda chynyrchiadau mawr ar ddeg achlysur. Dim ond dwywaith na chafodd Pinewood ei gynnwys a hynny o ganlyniad i ddewis y cynhyrchydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod Sgrîn Cymru[3] yn hyrwyddo holl gyfleusterau Cymru yn gyfartal, fodd bynnag, mae Pinewood yn dadlau yn erbyn yr honiad hwnnw. Hyd yma, mae Wolf Studios Wales wedi bod yn gartref i gynyrchiadau Bad Wolf yn unig, lle mae Pinewood wedi'i ddefnyddio ar gyfer cynyrchiadau'r BBC, Channel 4 a chwmnïau ffilm annibynnol.

24 Ym mis Hydref 2017, derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gyngor ei swyddogion i ddod â'r Brydles a'r Cytundeb Cydweithredol â Pinewood i ben, ac i ohirio'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

3 Gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion ynghylch Sgrîn Cymru.

25 Ar 1 Tachwedd 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ‘gytundeb gwasanaethau rheoli’ tair blynedd newydd gyda Pinewood Studios (Wales) Ltd. Mae’r cytundeb newydd hwn yn cynnwys dwy ran sy’n ategu ei gilydd; gwerthiant a marchnata’r stiwdio a gwasanaethau gweithredu a rheoli’r stiwdio. Mae’r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau bellach yn cael ei rheoli gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

26 Amcangyfrifir y bydd cost net flynyddol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’r cytundeb gwasanaethau rheoli yn £392,000 (yn ogystal â ffi rheoli ychwanegol i Pinewood bob blwyddyn, sydd wedi cael ei hepgor o’r adroddiad hwn ar sail sensitifrwydd masnachol[4]).

27 Mae’r amcangyfrif hwn o’r gost net yn cymryd bod y rhagolygon refeniw blynyddol o £714,000, a gafodd ei gynnwys yn y cyflwyniad i’r Ysgrifennydd Cabinet, yn realistig. Fodd bynnag, darparwyd y rhagolwg refeniw blynyddol gan Pinewood ar sail y llif o brosiectau ym mis Mawrth 2017 cyn agor Bad Wolf Studios. Serch hynny, ar yr adeg honno roedd Pinewood wedi ychwanegu’r y cafeat y gallai’r refeniw hwn fod yn is oherwydd mwy o gystadleuaeth wrth Wolf Studios. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod dibynadwyedd y rhagolygon refeniw wedi’u profi a’u harchwilio gan swyddogion yn ogystal ag ymgynghorwyr eiddo annibynnol.

28 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yw’r rhagolygon ariannol hyn yn cynrychioli gwerth da am arian. Serch hynny, yn eu barn nhw, roedd yn fwy manteisiol yn ariannol i ymrwymo i gytundeb tair blynedd gyda Pinewood[5] gyda’r bwriad o gynhyrchu refeniw masnachol o’i gymharu â’r costau y byddai Llywodraeth Cymru wedi’u hysgwyddo o adael y safle’n wag wrth iddynt chwilio am denant newydd.

4 Gweler Paragraff 3.13, Diagram 10 a Throednodyn 29 i gael eglurhad pellach am y rhesymau dros hepgor hyn.

5 Roedd y cytundeb hwn yn cynnwys amod a oedd yn caniatáu i’r naill barti a’r llall ddod â’r cytundeb i ben drwy roi chwe mis o rybudd, ar ôl y 12 mis cyntaf.

# Rhan 1 – Sefydlu Cytundeb Cydweithredol Llywodraeth Cymru â Pinewood ym mis Chwefror 2014

## Ymrwymodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i Gytundeb Cydweithredol â Pinewood i hyrwyddo cynyrchiadau teledu a ffilm yng Nghymru

1.1 Yn ystod 2013-14, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru drafodaethau gyda swyddogion Pinewood ynglŷn â sefydlu cyfleuster stiwdio o safon fyd-eang yng Nghymru. Byddai hyn yn rhan o rwydwaith byd-eang Pinewood o stiwdios ffilm. I gyd-fynd â'r stiwdio, datblygodd Llywodraeth Cymru gynlluniau hefyd i greu cyllideb fuddsoddi £30 miliwn i gefnogi cynyrchiadau ffilm a theledu yng Nghymru. Byddai'n cael ei weithredu gan Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd ar ran Llywodraeth Cymru.

1.2 Elfen allweddol o'r cynnig, yn wahanol i'r Cytundeb Cydweithredol ei hun, oedd bod y Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg wedi dod i feddiant Llywodraeth Cymru. Roedd y Ganolfan i'w hail-ddatblygu gan Lywodraeth Cymru a Pinewood fel stiwdio. Byddai'r stiwdio yn cael ei rhedeg gan Pinewood Studio (Wales) Ltd, is-gwmni newydd arall Pinewood.

1.3 Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl incwm rhent o £1.6 miliwn wrth Pinewood Studio (Wales) Ltd ar gyfer y stiwdio yn ystod pum mlynedd gyntaf y cytundeb.


1.4 Roedd Pinewood eisoes wedi gweithio gyda Llywodraeth Ynys Manaw i gyflwyno Cronfa Ddatblygu Cyfryngau Ynys Manaw yn 2012; dyma gronfa gwerth £25 miliwn i'w defnyddio ar gynyrchiadau ffilm a theledu. Adeiladodd y gronfa hon ar amrywiaeth o fentrau o fewn y sector creadigol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Ynys Manaw ers 1995. Daeth dadansoddiad economaidd annibynnol o gefnogaeth Ynys Manaw i gynyrchiadau ffilm a theledu i'r casgliad ei bod wedi cynhyrchu gwariant lleol uniongyrchol o £100 miliwn a 2,140 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ers 1995.

1.5 Roedd Llywodraeth yr Alban[6] a Chynulliad Gogledd Iwerddon[7] hefyd yn ehangu eu cyfleusterau stiwdios eu hunain i ymdopi â'r galw cynyddol o'r diwydiant ffilm a theledu.

6 Gwefan Llywodraeth yr Alban, Creative Industries: Film and TV production in Scotland
7 Buddsoddodd Gogledd Iwerddon mewn llwyfannau sain newydd ym mis Hydref 2012 i ddarparu gofod stiwdio ychwanegol yn Titanic Studios, Belfast.

1.6 Ar 17 Chwefror 2014, daeth y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood i ben ac ymrwymodd Gweinidogion i 'Gytundeb Cydweithredol' gyda Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd, fel y gwelir yn Diagram 1.

Diagram 1: elfennau allweddol y Cytundeb Cydweithredol




Ffynhonnell: casglwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth Llywodraeth Cymru.

Tudalen y pecyn 46

1.7 Yn ôl y rhagolygon, gallai Llywodraeth Cymru ddisgwyl gweld amcangyfrif o £90 miliwn ar wariant cynhyrchu ffilm a theledu yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd nesaf drwy'r Cytundeb Cydweithredol hwn. Byddai'r gwariant hwn yn creu neu'n diogelu o leiaf 1,950 o flynyddoedd o waith cyfwerth ag amser llawn. Defnyddiodd y rhagolygon hyn ddadansoddiad economaidd annibynnol a wnaed ar gronfa Ynys Manaw. Roedd enw brand Pinewood, oedd yn adnabyddus yn rhyngwladol, yn cael ei weld fel elfen ganolog o lwyddiant y cynnig.

1.8 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal prosesau diwydrwydd dyladwy ar y rhagolygon ariannol a ddarparwyd ar gyfer y gweithgareddau i'w cynnal gan y ddau is-gwmni Pinewood; Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd a Pinewood Studio (Wales) Ltd. Daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad fod y risgiau ariannol o ymrwymo i'r fargen yn isel, yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai'r ddau fusnes yn cael eu cefnogi'n ariannol gan Pinewood Shepperton Plc.

1.9 Yn ogystal, comisiynodd swyddogion arbenigwr o fewn y diwydiant cyfryngau i ddarparu cyngor ar gyfrifyddiaeth ac i gynnal adolygiad o gynllun busnes Pinewood. Daeth yr adolygiad hwnnw i'r casgliad fod y gwendidau posibl a nodwyd, yn unigol ac o'u rhoi at ei gilydd, yn ddibwys o'u cymharu â manteision capasiti cynyddol stiwdios yn y DU, sefydlu stiwdio ffilm ranbarthol, creu swyddi a manteision economaidd i Gymru. Serch hynny, cyfeiriodd yr adolygiad at heriau posibl denu cynyrchiadau ffilm a theledu i safle Gwynllŵg, o gofio bod pedair miliwn troedfedd sgwâr o ofod stiwdio posib o fewn yr M25.

1.10 Yn ogystal, dadansoddodd tîm sector Diwyddiannau Creadigol Llywodraeth Cymru yr achos busnes ar gyfer y cynigion, a daeth i'r casgliad ei fod yn fuddsoddiad cadarn. Seiliwyd y casgliad hwn ar ddadansoddiad manwl o'r cynllun busnes a ddarparwyd gan Pinewood ac ar ystyriaeth o alw'r diwydiant am stiwdio ffilm a theledu a mynediad i gyllideb fuddsoddi yng Nghymru.

## Prynodd Llywodraeth Cymru hen safle ynni yng Ngwynllŵg i'w ddatblygu fel stiwdio ffilm a theledu

1.11 Fel rhagarweiniad i'r cytundeb ac er mwyn gallu sefydlu stiwdio ffilm a theledu, roedd angen i Lywodraeth Cymru brynu safle addas.

1.12 Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn chwilio am safleoedd addas yn seiliedig ar ofynion penodol Pinewood. Dewisiodd Pinewood ddau safle ar gyfer y rhestr fer, wedyn dod i'r casgliad mai adeilad yr hen Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg oedd yr opsiwn gorau o'r ddau ar y rhestr fer. Roedd yr adeilad yn cael ei farchnata'n sylweddol gan asiantau am bris o amgylch £8.34 miliwn (gan gynnwys TAW). Roedd yn hysbys bod diddordeb yn yr adeilad – i'w brynu a'i rentu. Ystyriodd Llywodraeth Cymru brynu'r safle i gynnwys y llog rhydd-ddaliad er mwyn cynnig gwell gwerth am arian na phrydlesu'r safle[8].

1.13 Yn dilyn prisiad annibynnol, £6.54 miliwn (gan gynnwys TAW) oedd gwerth yr adeilad ar y farchnad. Felly, ystyriodd swyddogion fod y pris prynu o £6.3 miliwn a drafodwyd gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2013, yn fargen dda. Dywedodd y perchnogion wrth Lywodraeth Cymru eu bod yn barod i orffen y gwerthiant pe gellid cyfnewid contractau o fewn mis.

1.14 Edrychwyd ac adroddwyd am gyflwr yr adeilad[9] ar y pryd gan y priswyr annibynnol, fel a ganlyn:

- 'roedd yn ymddangos bod yr adeilad mewn cyflwr rhesymol yn gyffredinol yn gymesur â'i oedran a'i ddefnydd. Ni nodwyd unrhyw ddiffygion arwyddocaol neu eitemau atgyweirio brys fyddai'n debygol o arwain at wariant sylweddol yn y dyfodol agos neu y tu allan i sgôp y broses gynnal a chadw flynyddol arferol'.

1.15 Ym mis Rhagfyr 2013, cymeradwyodd y Gweinidog dros Addysg, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gynigion a gyflwynwyd gan swyddogion i brynu'r safle gan Lywodraeth Cymru am £6.3miliwn[10].

8 Eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym bod llog prydles yn cael ei ystyried yn 'wastraff asedau', ac y byddai eu gwerth yn lleihau dros amser.

9 Ar gyfer cyflawnrwydd, gellir nodi bod tyrbin gwynt mawr hefyd yn bresennol o fewn adeilad Gwynllŵg a oedd, ar adeg ei brynu gan Lywodraeth Cymru, yn amodol ar brydles gyfredol i gyflenwr ynni.

10 Ynghyd â'r ffioedd proffesiynol cysylltiedig o hyd at £30,000.

1.16 Roedd y cyflwyniad i'r Gweinidog yn datgan y byddai Llywodraeth Cymru, yn unol â Phenawdau'r Telerau, yn buddsoddi £1.8 miliwn (gan gynnwys TAW) yn y gwaith o wella'r adeilad, gyda £800,000 o fuddsoddiad cyfatebol gan Pinewood[11]. Byddai'r gwaith ffisegol y cytunwyd arno yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru, neu fel arall gan Pinewood dan oruchwyliaeth Llywodraeth Cymru. Ar ôl cwblhau'r gwaith i safon foddhaol, byddai'r brydles alwedigaethol yn cael ei rhoi i Pinewood.

1.17 Cynghorodd swyddogion Llywodraeth Cymru y Gweinidog, er nad oedd y Cytundeb Cydweithredol â Pinewood wedi'i lofnodi eto, y dylai'r broses o brynu'r Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg fynd yn ei blaen beth bynnag.

1.18 Cyflwynodd hynny risg, pe na bai prosiect Pinewood yn symud yn ei flaen, nid oedd gan Lywodraeth Cymru y sgiliau na'r arbenigedd yn fewnol i ddatblygu a rheoli cyfleuster stiwdio rhyngwladol. Fodd bynnag, nododd swyddogion y gellid lliniaru'r risgiau hyn pe bai angen drwy amrywiaeth o gamau gweithredu. Roeddent yn cynnwys contractio'r broses o reoli'r cyfleuster drwy broses gaffael ar y farchnad agored.

1.19 Cwblhawyd y broses o brynu safle Gwynllŵg gan Lywodraeth Cymru ar 7 Chwefror 2014. Nid oedd union raddau'r gwaith atgyweirio a'r gwelliannau angenrheidiol ar gyfer yr adeilad wedi'u cytuno na'u cwblhau rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood ar y dyddiad prynu.

1.20 Yn fuan cyn i Pinewood symud i'r adeilad, gwelwyd bod dŵr yn gollwng, yn bennaf yng nghyffiniau'r cafnau dŵr glaw. Gallai'r atgyweiriadau angenrheidiol i'r to fod wedi eu cyfyngu i'r ardaloedd hyn. Fodd bynnag, er mwyn lleihau risgiau gweithredol a risg i enw da, dewisodd swyddogion Llywodraeth Cymru weithredu cynllun mwy sylweddol yn costio £979,000. Darparodd hyn orchudd ar gyfer y to cyfan gyda'r mantais o ymestyn oes y to[12]. Ym marn swyddogion Llywodraeth Cymru, byddai hyn yn helpu gyda phroses reoli barhaus yr adeilad a fyddai hefyd yn ychwanegu gwerth pe byddai'n ceisio cael gwared ar yr adeilad yn y dyfodol.

11 Gweler paragraffau 3.10 a 3.11
12 Darparwyd gwarant 20 mlynedd gan y gwneuthurwr.

Diagram 2: Yr Adeilad Rhestredig Gradd II gerllaw Pinewood Studio Wales




Ffynhonnell: Ymweliad safle Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Ebrill 2018

1.21 Fel rhan o'r broses o brynu'r safle, prynodd Llywodraeth Cymru hefyd ffermdy rhestredig Gradd II adfeiliedig ger y prif adeilad. Wrth brynu'r ffermdy, daeth Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth statudol i adnewyddu'r adeilad am gost amcangyfrifedig o £360,000 (gan gynnwys TAW). Rhagwelodd swyddogion Llywodraeth Cymru, ar ôl ei adnewyddu, y gallai'r ffermdy fod yn ased gwerthfawr y gellid ei brydlesu neu ei werthu, naill ai gyda'r prif adeilad neu ar wahân.

1.22 Yn ystod y trafodaethau ar y brydles, trafododd swyddogion Llywodraeth Cymru a Pinewood a ddylid adnewyddu'r ffermdy a'i gynnwys gyda'r stiwdio at ddibenion eraill. Penderfynwyd yn y pen draw y byddai Pinewood yn prydlesu'r adeilad diwydiannol yn unig. Heb unrhyw ddefnydd penodol ar gyfer y ffermdy, penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â buddsoddi yn y gwaith adnewyddu am y tro. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y gallai fod yn rhan o brosiect yn y dyfodol, neu i gael gwared arno ar wahân.

Diagram 3: Y costau a wynebwyd gan Lywodraeth Cymru yng nghyswllt prynu ac adnewyddu'r hen Ganolfan Ynni yng Ngwynllŵg[13]




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

13 Mae'r holl ffigurau'n cynnwys TAW lle bo'n berthnasol. Etholodd Llywodraeth Cymru i drethu'r adeilad er mwyn adennill costau TAW.

14 Yn cynnwys £1,800,000 o welliannau arfaethedig. £979,000 ar gyfer atgyweirio'r to a £360,000 i adnewyddu gofod swyddfa.

## Rhoddodd Llywodraeth Cymru safle Gwynllŵg i Pinewood Studio (Wales) Ltd ar brydles, a chytunodd i gyfrannu'r rhan fwyaf o'r arian angenrheidiol i'w adnewyddu

1.23 Llofnododd Gweinidogion Llywodraeth Cymru y Cytundeb Cydweithredol â Pinewood Shepperton Plc ar 17 Chwefror 2014, ychydig ddyddiau ar ôl cwblhau'r broses o brynu safle Gwynllŵg. Fe wnaeth y cytundeb hwyluso'r broses o brydlesu'r safle i is-gwmni newydd Pinewood; Pinewood Studio (Wales) Ltd.

1.24 Ni lofnodwyd y brydles rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Pinewood Studio (Wales) Ltd tan 20 Hydref 2016, er bod Cytundeb Prydlesu wedi'i lofnodi ar 16 Gorffennaf 2014. Roedd y safle ym meddiant Pinewood a dechreuodd y gwaith cynhyrchu o ddechrau 2015.

1.25 Roedd y telerau a gytunwyd ar gyfer prydles atgyweirio lawn 15 mlynedd, ar delerau gosod safonol y farchnad o fis Ionawr 2015, gyda'r ddwy flynedd gyntaf yn ddi-rent. O dan delerau'r brydles, roedd gan Pinewood Studio (Wales) Ltd opsiwn i dorri'r brydles yn ystod y pumed a'r wythfed blwyddyn, ar ôl ad-dalu cymhellion tenant priodol. Cytunwyd i'r rhent cychwynnol o £546,876 y flwyddyn i ddechrau o 12 Ionawr 2017.

1.26 Dros dymor pum mlynedd cyntaf y cytundeb prydles (i Ionawr 2020), roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl cynhyrchu incwm rhent o £1.6 miliwn[15] wrth Pinewood ar gyfer y stiwdio.

## Noddwyd Pinewood Studio (Wales) Ltd gan Lywodraeth Cymru i farchnata a hyrwyddo'r stiwdio ffilm a theledu newydd ar gost flynyddol o £525,600 (gan gynnwys TAW) dros gyfnod o bum mlynedd

1.27 Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredol a lofnodwyd ar 17 Chwefror 2014, ymrwymodd Llywodraeth Cymru hefyd i 'gytundeb nawdd' â Pinewood Studio (Wales) Ltd ar gost flynyddol o £438,000 am y pum mlynedd o 1 Mawrth 2014 i 31 Mawrth 2019.

1.28 Yn fuan ar ôl i'r Cytundeb Cydweithredol gael ei lofnodi, cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru fod TAW wedi'i hepgor o'r cytundeb nawdd gwreiddiol. Felly, gofynnwyd am gymeradwyaeth y Gweinidog i gynyddu'r nawdd blynyddol o £87,600 i £525,600. Felly byddai'r cyfanswm sy'n daladwy i Pinewood yn ystod y cytundeb nawdd pum mlynedd yn £2.63 miliwn.


15 Incwm rhent tair blynedd, yn dilyn cyfnod di-rent cychwynnol o ddwy flynedd.

1.29 Nododd y cytundeb nawdd y byddai'r stiwdio yn cael ei henwi'n 'Pinewood Studio Wales' ac y byddai'n cael ei hyrwyddo a'i marchnata'n rhyngwladol fel stiwdio ffilm a theledu, ochr yn ochr â chyfleusterau rhyngwladol eraill Grŵp Pinewood[16]. Disgwyliwyd i hyn adeiladu ar enw da Cymru fel lleoliad gwych i ffilmio a'i gysylltu â gwasanaethau Comisiwn Sgrîn Cymru.

1.30 Y stiwdio yng Ngwynllŵg fyddai'r stiwdio Pinewood gyntaf yn y DU y tu allan i dde-ddwyrain Lloegr. Mae Diagram 4 yn dangos sut mae'r stiwdio yn cael ei hyrwyddo ar hyn o bryd drwy wefan benodol a sefydlwyd gan Pinewood.

16 Ar draws timau gwerthiant Pinewood yn Llundain, Efrog Newydd a Los Angeles ac mewn gwyliau ffilm.

Diagram 4: Hafan Pinewood Studio Wales




Ffynhonnell: Gwefan Pinewood Studio Wales, mis Mai 2018.

1.31 O dan y cytundeb hwn, cytunodd Pinewood i beidio â chynnig cyfleusterau stiwdio wedi'u brandio (heblaw unrhyw rai gyda'u partneriaid neu gysylltiadau presennol) yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Glannau Merswy neu Avon a Gwlad yr Haf, heb gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Cytunodd Llywodraeth Cymru hefyd ar gytundeb cyfyngu pum mlynedd i beidio ag adeiladu stiwdio arall yng Nghymru heb gymeradwyaeth Pinewood. Rhoddodd y cytundeb hwn rai cyfyngiadau ar yr hyn y byddai Gweinidogion yn gallu ei wneud yn y dyfodol o ran stiwdios eraill.

1.32 Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwybodol ei fod yn hollbwysig y gallent gyfiawnhau'r ffi blynyddol o gofio ei fod yn sylweddol uwch na gwerth y trefniadau nawdd eraill yr oeddent wedi ymrwymo iddynt. Roeddent hefyd yn ymwybodol na ddylai'r ffi fod yn gyfystyr â Chymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon i Pinewood. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y ffi yn werth da am arian ac ar delerau'r farchnad. Daethpwyd i'r casgliad y byddai'r trefniadau hyn yn lliniaru'r risg o unrhyw her gyfreithiol.

## Sefydlodd Llywodraeth Cymru gyllideb o £30 miliwn i fuddsoddi mewn cynyrchiadau ffilm a theledu, a phenodwyd Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd i nodi prosiectau addas i fuddsoddi ynddynt

1.33 Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i greu cyllideb ffilm a theledu gwerth £30 miliwn. Byddai'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau hon yn cael ei rheoli gan Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd ar ran Llywodraeth Cymru. Byddai'n gweithredu fel cynllun peilot, am bum mlynedd i ddechrau, ac yn amodol ar adolygiad interim ar ôl 18 mis.

1.34 Byddai'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn cael ei defnyddio i ariannu'r broses o ddatblygu, cynhyrchu a dosbarthu prosiectau adloniant a ffilmiwyd neu unrhyw brosiectau cyfryngau eraill a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl elwa o'i gydweithrediad â Pinewood oherwydd ei arbenigedd, ei wybodaeth a'i rwydweithiau o fewn y sector, yn ogystal â'i brofiad o gydweithio â threfniant tebyg yn Ynys Manaw.

1.35 Bwriad Llywodraeth Cymru oedd adennill ei fuddsoddiadau drwy ad-dalu benthyciadau ac ad-daliadau ar ecwiti, ac ail-fuddsoddi'r ffrydiau incwm hynny mewn prosiectau cynhyrchu pellach. Roedd gan hyn y potensial i greu cronfa hunan-adnewyddu neu 'fytholwyrdd'. Rhagwelodd swyddogion y byddai'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn buddsoddi rhwng £12 miliwn a £15 miliwn y flwyddyn[17].

1.36 Ni dderbyniodd Film Advisors (Wales) Ltd nawdd gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â'r rôl reoli hon. Fodd bynnag, o dan y Cytundeb Cydweithredol, byddai'n gallu cynhyrchu refeniw o'r busnesau sy'n gwneud cynyrchiadau a ariennir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan gynnwys:

- Gallai Pinewood drafod ffioedd cynhyrchu/trefnu gyda'r cwmni cynhyrchu, y dylid eu cynnwys yn y gyllideb gynhyrchu a'u talu gan y cwmni cynhyrchu.
- Gallai Pinewood dderbyn ffioedd dosbarthu a/neu gostau pan fydd hawliau dosbarthu'r DU yn cael eu prynu a'u cynnwys yn y broses gymeradwyo. Byddai'r ffioedd a'r costau hyn yn cael eu derbyn gan Pinewood o'r derbyniadau a gasglwyd o'r hawliau dosbarthu, heb ofyn am gymorth Llywodraeth Cymru.
- Gallai Pinewood hefyd, yn ôl ei ddisgresiwn, fuddsoddi ei gronfeydd ei hun yn y cynyrchiadau hyn.

17 Byddai buddsoddiadau'n cael eu gwneud rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2019. Byddai angen cwblhau pob gweithgaredd cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu erbyn 31 Mawrth 2020.

1.37 Lansiwyd y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a Pinewood Studio Wales yn swyddogol mewn digwyddiad yng Nghaerdydd ar 17 Chwefror 2014.

1.38 Mae Diagram 5, a gymerwyd o wefan Pinewood Studio Wales ym mis Gorffennaf 2017, yn crynhoi hyrwyddiad gan Pinewood o ran Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau Llywodraeth Cymru.

Diagram 5: hyrwyddiad gan Pinewood o ran Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau Llywodraeth Cymru

Ystyriaethau allweddol Cyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau Llywodraeth Cymru:

- Rhaid i gynyrchiadau saethu 50% o'r lluniau yng Nghymru;
- Gall Pinewood Pictures a Sgrîn Cymru ddarparu gwybodaeth am saethu yng Nghymru. Am drosolwg, ewch i www.screenwales.com
- At hynny, mae cyfleuster stiwdio Pinewood yng Nghaerdydd ar gael ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu:
  - gan gynnwys 2 lwyfan 20,000 troedfedd sgwâr yr un gyda sain arbennig a 30,000 troedfedd sgwâr ychwanegol o ran llawr saethu;
  - 70,000 troedfedd sgwâr o ofod cynhyrchu defnydd cymysg, gan gynnwys llety i gynyrchiadau a swyddfeydd a chyfleusterau modern a hyblyg;
  - Yn agos i ganol Caerdydd ac amrywiaeth o leoliadau godidog;
  - Am fwy o wybodaeth, ewch i www.pinewoodstudiowales.com

Mae rhai o'r cyn brosiectau yn cynnwys: Take Down, Don't Knock Twice a Their Finest Hour and a Half.

Ffynhonnell: Gwefan Pinewood Studio Wales, mis Gorffennaf 2017.

1.39 Ceir saith math o fuddsoddiad y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud gyda chynyrchiadau drwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Gall prosiectau ddefnyddio un math o gyllid yn unig, neu gyfuniad ohonynt. Weithiau, gall Llywodraeth Cymru ddewis rhoi cyllid grant ochr yn ochr â'r cyllid buddsoddi masnachol. Fodd bynnag, mae gan bob math o fuddsoddiad amserlenni a risgiau gwahanol, fel y dangosir yn Diagram 6. Mae Atodiad 4 yn cynnwys mwy o fanylion am bob math o fuddsoddiad.

Diagram 6: y saith math o fuddsoddiad y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud gyda chynyrchiadau drwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

| MATH O FUDDSODDIAD | DISGRIFIAD | AMSERLEN |
|---|---|---|
| Credyd Treth | Blaendaliadau arian parod yn erbyn y credydau treth y mae'r cynhyrchiad yn gymwys iddynt | Gan amlaf o fewn 12 mis i'r gwaith gael ei gwblhau |
| Cyn-Werthu | Blaendaliadau arian parod yn erbyn y gwerthiant a wnaed eisoes i ddosbarthwyr | O fewn chwe mis i'r toriad terfynol gael ei gymeradwyo |
| Bwlch | Ymrwymiad yn erbyn tiriogaethau gwerthiant na werthwyd yn seiliedig ar amcangyfrifon gwerthu | Pan fydd gwerthiant yn dechrau, yn dilyn dangosiadau gwerthu ar ôl i'r toriad terfynol gael ei gymeradwyo |
| Mesanîn | Cyllid yn seiliedig ar y ffilm yn derbyn gwerthiant uwch na'r amcangyfrif | Yn agos at neu'n dilyn rhyddhau'r cynhyrchiad |
| Ecwiti | Ad-dalu buddsoddiadau terfynol, sy'n gofyn i'r cynhyrchiad werthu'n dda i ddosbarthwyr | Ar ôl i'r holl gyllid arall gael ei ad-dalu'n llawn |
| Cyllid Busnes Ad-daladwy | Cymorth ariannol dewisol ar sail ad-daladwy neu na ellir ei ad-dalu | Cynghori Pinewood ynglŷn â pha bryd y gellir adennill cyllid os yw'n ad-daladwy |
| Cyllid Datblygu | Cyllid ar gyfer cam datblygu prosiect, a ad-delir os bydd y prosiect yn symud i'r cam cynhyrchu | Ad-dalu ar ddiwrnod cyntaf y prif saethu |

UCHEL (Credyd Treth, Cyn-Werthu) · CANOLIG (Bwlch) · ISEL (Mesanîn, Ecwiti, Cyllid Busnes Ad-daladwy, Cyllid Datblygu)

Ffynhonnell: casglwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth Llywodraeth Cymru.

# Rhan 2 – Gweithredu'r Cytundeb Cydweithredol tan fis Hydref 2017

## Sefydlodd Llywodraeth Cymru Banel Buddsoddi yn y Cyfryngau i benderfynu pa brosiectau a gyflwynwyd gan Pinewood ddylid eu cefnogi gan y gyllideb fuddsoddi

2.1 Roedd Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai ei Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau gan amlaf yn buddsoddi'n unswydd mewn prosiectau sy'n costio dros £1 miliwn i'w cynhyrchu. Cymeradwyodd y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sefydlu Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau dan arweiniad y sector preifat a fyddai'n darparu'r arbenigedd angenrheidiol i graffu a chymeradwyo'r prosiectau hyn. Byddai'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau yn cael ei sefydlu fel grŵp gorchwyl a gorffen am gyfnod cychwynnol o 18 mis, a'i gadeirio gan arbenigwr o fewn y diwydiant[18].

2.2 Sefydlwyd y Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau ym mis Ebrill 2014 fel panel o arbenigwyr o fewn y sector a benodwyd drwy broses gyhoeddus.


2.3 Byddai swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal adolygiadau diwydrwydd dyladwy annibynnol o'r holl brosiectau arfaethedig, ac yn gyfrifol am gynnal adolygiadau cydymffurfio i sicrhau bod telerau ac amodau ariannol yn cael eu bodloni. Yn benodol:

- o leiaf 50% o'r cynhyrchiad i'w saethu yng Nghymru;
- 35 i 40% o gyllideb 'dan y llinell' y cynhyrchiad i'w wario ar wariant cynyrchiadau Cymreig; a
- byddai Llywodraeth Cymru yn rhannu'r manteision masnachol o gynyrchiadau ffilm a theledu.

2.4 Mae Diagram 7 yn crynhoi sut roedd y prosiectau yn cael eu gwerthuso am gyllid o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

18 Gyda threfniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith i reoli unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddedig.

Diagram 7: sut roedd y prosiectau yn cael eu gwerthuso am gyllid o’r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.




Ffynhonnell: casglwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru.

## Nid oedd perfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn bodloni disgwyliadau'r panel

2.5 Erbyn tymor yr haf 2016, roedd aelodau'r Panel Buddsoddi yn y Cyfryngau a Phanel Sector y Diwydiannau Creadigol yn anfodlon ynglŷn â pherfformiad y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Yn unol â hynny, cynghorodd Cadeirydd Panel y Sector Diwydiannau Creadigol swyddogion Llywodraeth Cymru y dylid agor y gyllideb a'i gwneud yn anghyfyngedig i Pinewood.

2.6 Ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ym mis Awst 2016, yn nodi eu pryderon canlynol ynglŷn â pherfformiad y gyllideb:

- mwy o fuddsoddiadau risg uwch yn cael eu cyflwyno gan Pinewood oherwydd gallai cynyrchiadau gael cyllid risg llai o ffynonellau eraill heb y gofyniad eu bod yn cael eu ffilmio yng Nghymru;
- roedd model gweithredu Pinewood yn golygu ei fod yn gyndyn i fuddsoddi ei arian ei hun yn y prosiectau o risg uwch ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru; ac
- efallai bod gwrthdaro o ran cysylltiad Pinewood â'r gyllideb gan fod diddordeb ganddynt mewn darparu ei wasanaethau ei hun i'r diwydiant o Lundain (nid yw hyn wedi'i atal o dan y Cytundeb Cydweithredol). Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo bod gan Pinewood fantais gystadleuol annheg wrth ddiogelu gwaith ôl-gynhyrchu yng Nghymru. Felly, roeddent o'r farn y byddai hyn yn gallu lleihau'r manteision economaidd i Gymru.

2.7 Ar 2 Tachwedd 2016, ysgrifennodd swyddogion Llywodraeth Cymru at Pinewood i nodi'r materion ynglŷn â Chyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a'r Cytundeb Cydweithredol. Roedd dau fater o bryder arbennig iddynt:

- **Cydymffurfiaeth** – roedd yn ymddangos bod diffyg tryloywder ynglŷn â graddau rôl ehangach Grŵp Pinewood mewn cynyrchiadau. Gwaethygodd y diffyg tryloywder ymddangosiadol yma'r pryderon ynglŷn â'r fantais ariannol y gallai Pinewood ei chael dros gwmnïau eraill drwy ei fynediad ecsgliwsif i'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.[19]
- **Perfformiad y Contract** – roedd y cynllun busnes gwreiddiol wedi amcangyfrif cyfanswm gwariant o £90 miliwn yng Nghymru, a oedd yn cynrychioli cymhareb trosoledd o 1:3 o ran cyllid cyhoeddus ochr yn ochr â chyllid preifat. Yn ôl swyddogion Llywodraeth Cymru, ar y pryd y gymhareb go iawn oedd 1:1, gan leihau'n sylweddol potensial y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau i ariannu ei hun.

19 Ni ragwelwyd y risg y gallai'r canfyddiad hwn fodoli adeg briffio'r Gweinidog yn 2014 lle argymhellwyd cymeradwyo'r Cytundeb Cydweithredol, neu fe gafodd ei hystyried yn ddibwys gan swyddogion pan gafodd y cyflwyniad ei roi i'r Gweinidog a argymhellodd fod y Cytundeb Cydweithredol yn cael ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2014, oherwydd nid yw'r papur cyflwyno yn dweud dim am y pwynt hwn.

2.8 Fe wnaethom holi swyddogion Pinewood ynghylch y pryderon hyn. Dywedodd Pinewood wrthym nad oedd yn gweld pam roedd Llywodraeth Cymru yn pryderu am amharodrwydd ymddangosiadol Pinewood i fuddsoddi mewn prosiectau ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, a nododd ei fod wedi gwneud hynny ar gyfer naw prosiect. Nododd Pinewood nad oedd wedi adennill urnhyw fuddsoddiad mewn dau o'r prosiectau hyn eto. Drwy fuddsoddi mewn prosiectau fel 'Show Dogs', roedd Pinewood wedi galluogi'r prosiectau hyn i gwblhau'r agweddau ariannol wrth ffilmio yng Nghymru. O ran 'The Collection', mae Pinewood yn credu na fyddai'r arian a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn unig wedi bod yn ddigon i adleoli'r ffilmio y tu allan i Swydd Efrog. Mae Pinewood yn credu bod ei fuddsoddiad ef ei hun yn y prosiect hwnnw wedi sicrhau digon o arian i symud y cynhyrchiad i Gymru.


2.9 Mae swyddogion Pinewood hefyd wedi ein sicrhau ni ei fod wedi mynd i'r afael â phryder Llywodraeth Cymru ynghylch cydymffurfiaeth drwy ei sicrhau bod croeso i'r cynyrchiadau ddewis derbyn cynnig ar ôl buddsoddi Pinewood i ddarparu gwasanaethau cynhyrchu, neu wneud eu trefniadau eu hunain i ddefnyddio cwmni arall yn lle. Fel enghreifftiau o hyn, cyfeiriodd Pinewood at gynhyrchwyr 'Journey's End', a oedd wedi dewis defnyddio tŷ ôl-gynhyrchu ar wahân i Pinewood, a doedd hwnnw ddim yng Nghymru. Yn yr un modd, roedd cynhyrchwyr 'The Collection' wedi dewis defnyddio stiwdio arall ar wahân i Pinewood ar gyfer ffilmio ar y llwyfan ac y tu ôl i'r llwyfan.

2.10 O ran pryder Llywodraeth Cymru ynghylch cyflawni contractau, mae swyddogion Pinewood wedi dweud wrthym fod eu cofnodion yn adlewyrchu cymhareb cyllid i wariant o tua 1:6 ar yr adenillion afraethedig.

2.11 Rydym wedi penderfynu bod Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd wedi cynhyrchu cyfanswm o £1,180,421 mewn ffioedd cynhyrchu / trefnu o gynyrchiadau sydd wedi'u hariannu gan Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau. Fel y nodir uchod, mae unrhyw incwm ychwanegol sydd wedi'i gynhyrchu gan y cwmni drwy ddarparu gwasanaethau ôl-gynhyrchu wedi deillio o gystadleuaeth agored, yn hytrach na darparu cymorth a ariannir gan y trethdalwyr. Felly, nid ydym wedi cynnwys y ffrwd refeniw hon yng nghwmpas ein gwaith archwilio. Rydym yn nodi bod cyfrifon cyhoeddedig Pinewood Film Advisors (Wales) Ltd yn datgelu colled cadw o £320,000 ar weithgareddau'r cwmni ar ddiwedd y flwyddyn yn gorffen ar 31 Mawrth 2017.

2.12 Mae'r ffigurau diweddaraf a roddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod £13.8 miliwn o'r gyllideb o £30 miliwn wedi'i fuddsoddi ar draws 14 o brosiectau. Mae Diagram 8 yn dadansoddi'r £13.8 miliwn dros y saith math o gyfrwng buddsoddi sydd ar gael i'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

Diagram 8: buddsoddiadau a wnaed o’r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau[20]




Ffynhonnell: gwybodaeth Llywodraeth Cymru.

20 Mae’r diagram hwn yn cynnwys yr holl brosiectau a ariennir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (hyd at Fai 2018), gan gynnwys y rheini a gafodd eu canfod gan Pinewood ac yna gan Llywodraeth Cymru. Gweler Atodiad 5 am ragor o fanylion.

2.13 Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod cyfanswm o £4.3 miliwn wedi'i adennill hyd yn hyn, o bump o'r 14 prosiect a gefnogwyd:

- mae un prosiect wedi adennill mwy na'i fuddsoddiad gwreiddiol;
- mae pedwar prosiect wedi adennill rhywfaint o'i fuddsoddiad gwreiddiol; a
- mae naw prosiect heb adennill unrhyw beth o'u buddsoddiad gwreiddiol eto.

Mae'r prosiectau hyn yn ystod camau datblygu gwahanol. Nid yw rhai o'r prosiectau wedi elwa hyd yma o'u rhyddhau mewn sinemâu rhyngwladol neu ar y teledu, a bydd arian yn parhau i gael ei adennill drwy werthiant ychwanegol.

2.14 Mae Diagram 5 yn rhoi manylion pellach am y cynyrchiadau a gefnogwyd a'r hyn sydd wedi'i adennill.

## Nid oedd Pinewood Studios Wales Ltd yn gallu gweithredu'r stiwdio fel busnes hyfyw heb gymorth Pinewood Group Limited

2.15 Rhwng Tachwedd 2016 a Hydref 2017, cynhaliwyd trafodaethau rhwng Pinewood a Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar:

- newidiadau i rôl Pinewood yn y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau; a
- rheolaeth Pinewood o Pinewood Studio Wales, oedd ddim yn llawn ac yn gwneud colled i Pinewood[21].

O 25 Mehefin 2017 ymlaen, cytunodd Llywodraeth Cymru y byddai rhwymedigaeth Pinewood i dalu rhent ar gyfer cyfleusterau Gwynllŵg yn cael ei gohirio, yn amodol ar ganlyniad terfynol y trafodaethau[22].

2.16 Yn ystod y cyfnod hwn, bu newid ym mherchnogaeth ac arweinyddiaeth Pinewood[23]. Mewn trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion newydd Pinewood, daeth yn amlwg bod yna awydd ymhlith y ddau i gytuno ar fodel gweithredu newydd ar gyfer y stiwdio.

21 Er erbyn Medi 2016 roedd Pinewood wedi llwyddo i groesawu chwe chynhyrchiad a gofod busnes trwyddedig yn y stiwdio ar gyfer 20 cwmni, nid oedd y lefel o feddiannaeth gan gwmnïau cynhyrchu ffilmiau wedi cyrraedd y lefel a ddisgwylid yn wreiddiol.
22 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.8, cafodd yr holl renti na gafodd eu talu eu setlo'n llawn fel rhan o'r broses o ail-drafod y cytundeb.
23 Gwerthwyd Pinewood Shepperton Plc i Venus Grafton Sarl ym mis Hydref 2016.

2.17 Yn 2017, penderfynodd tîm rheoli Pinewodd ddod â gweithgareddau i ben mewn perthynas â rheoli cronfeydd, gwasanaethau cynghori ar fuddsoddi mewn cronfeydd trydydd partïon, a buddsoddi yn ei gyllid ei hun mewn cynyrchiadau ffilm a theledu. Gwnaed y penderfyniad hwn oherwydd nid oedd y gweithgareddau hyn yn cynrychioli craidd yr hyn roedd Pinewood yn ei gynnig, nac yn cynrychioli cyfran arwyddocaol o'u trosiant.

2.18 Gan fod y Cytundeb Cydweithredol wedi'i gysylltu'n gytundebol â phrydles y stiwdio, fe wnaeth y broses o ddod â'r Cytundeb Cydweithredol i ben ganiatáu i Pinewood ddod â'r brydles i ben yn gynnar.

2.19 Fe wnaethom gyfarfod â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Dros Dro Pinewood, yn ogystal â Chyfarwyddwr Materion Corfforaethol y cwmni ar 16 Ebrill 2018. Fe ddywedwyd wrthym, yn eu barn nhw, fod agoriad stiwdio ffilm a theledu newydd gan Bad Wolf ym Mharc Trident, Caerdydd ym mis Mai 2017, wedi cael effaith andwyol ar ddeiliadaeth Pinewood Studio Wales, a bod nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd wedi disgyn o ganlyniad.

2.20 Mae Bad Wolf Studios Ltd wedi cael budd o becyn cyllid £9 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid wedi'i strwythuro o amgylch benthyciad cychwynnol o £4.5 miliwn i'w dalu'n ôl, ac y mae modd ei droi yn grant cyn gynted ag y bydd cerrig milltir o ran perfformiad yn cael eu cyflawni mewn cyfnod o 10 mlynedd. Bydd y cerrig milltir hyn yn ymwneud â pha mir broffidiol yw'r cwmni a faint o wariant sydd ar gynhyrchu yn economi Cymru o ganlyniad. Bydd y £4.5 miliwn sy'n weddill yn daladwy fel grant yn amodol ar gyflawni targedau gwario ar gynhyrchiant ychwanegol. At hynny, mae Llywodraeth Cymru yn prydlesu cyfleuster Wolf Studios Wales i Bad Wolf Studios Ltd ym Mae Caerdydd, ar delerau masnachol.

2.21 Yn wahanol i Pinewood Studio Wales, sydd ag uchafswm uchder bargod o 25 troedfedd[24], Wolf Studios Wales yw'r unig gyfleuster yng Nghymru sy'n gallu cynnig lle ag uchafswm uchder bargod o 57 troedfedd. Cyfeiriwyd at uchder y bargod mewn datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mai 2017 a oedd yn hyrwyddo Wolf Studios Wales fel 'yn sicr o ddenu rhaglenni teledu o'r radd flaenaf a ffilmiau sydd â chyllidebau mawr o bob rhan o'r byd'.

24 Mae uchafswm uchder bargod o 25 troedfedd yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru a Pinewood fel ffactor a all gyfyngu ar ba mor addas yw'r stiwdio ar gyfer rhai mathau o gynyrchiadau.

2.22 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym bod y galw am gyfleusterau stiwdio yn amrywio wrth i gynyrchiadau fynd a dod, ond yn eu barn nhw, effeithiwyd ar y galw am safle Gwynllŵg yn sgil newid ffocws ar ôl i berchnogaeth Pinewood newid. Nid ydynt yn credu y cafwyd gostyngiad yn yr ymholiadau ar gyfer Pinewood ers agor Wolf Studios Wales. I'r gwrthwyneb, dywedodd swyddogion gweithredol Pinewood wrthym bod Pinewood yn parhau i ganolbwyntio ar werthu'r lle mewn cyfleusterau stiwdio, a bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn awyddus i gadw arbenigedd Pinewood o dan y Cytundeb Gwasanaethau Rheoli newydd (nodir hyn yn Rhan 3 yr adroddiad hwn). Dywedodd Pinewood wrthym hefyd fod y galw am stiwdios eraill Pinewood yn dal yn gryf yn y DU.

2.23 Yn ôl swyddogion Llywodraeth Cymru, mae Sgrîn Cymru wedi cynnal deg ymweliad â'r stiwdio gyda chynyrchiadau mawr yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Dim ond dwywaith na chafodd Pinewood ei gynnwys a hynny o ganlyniad i ddewis y cynhyrchydd. Hyd yma, mae Wolf Studios Wales wedi bod yn gartref i gynyrchiadau Bad Wolf yn unig (roedd angen uchafswm uchder bargod uwch ar nifer o'r rhain) lle mae Pinewood wedi'i ddefnyddio ar gyfer cynyrchiadau'r BBC, Channel 4 a chwmnïau ffilm annibynnol.

2.24 Pwysleisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod Sgrîn Cymru yn parhau i hyrwyddo Pinewood Studios Wales, Wolf Studios Wales a stiwdios eraill yng Nghymru yn gyfartal. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae lefel uchel o alw am gyfleusterau stiwdio Pinewood yn debygol o barhau i'r hydref. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion gweithredol Pinewood wrthym eu bod yn credo bod agor stiwdio sy'n cystadlu â nhw wedi cael effaith ar y galw am le ar safle Gwynllŵg ac nad yw'r hyrwyddo cyfartal gan Sgrîn Cymru ddim yn mynd i'r afael â hyn.

# Rhan 3 – Y trefniadau rheoli diwygiedig o fis Tachwedd 2017

## Ym mis Hydref 2017, terfynodd Llywodraeth Cymru y Cytundebau Prydlesu a Chydweithredol â Pinewood, a gohiriwyd y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau

3.1 Yng ngoleuni'r sefyllfa a ddisgrifir yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn, rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyngor ffurfiol i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar 29 Medi 2017 a gofynnwyd am ei gymeradwyaeth i:

- dod â'r Cytundeb Cydweithredol â Pinewood i ben;
- dod â chytundeb prydles galwedigaethol presennol y stiwdio i Pinewood i ben ar 31 Hydref 2017; a
- gohirio'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau.

